

PLANT YNG NGHYMURU
CHILDREN IN WALES

Rhifyn 94
Hydref 2025

childreninwales.org.uk

Newid y stori: gweithio gyda'n gilydd i roi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru

CYNNWYS

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent

Fairer Future

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Lisa Turner
(Trails, Bales and Snails)

Money Ready

HEFYD

Chwarae Cymru
Cymdeithas Llywodraeth
Leol Cymru
ScoutsCymru
Credud

Croeso!

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Hugh Russell	4
Calendr Hyfforddiant Plant yng Nghymru (Tachwedd 2025 - Mawrth 2026)	6
Digwyddiadau Plant yng Nghymru	7
Cefnogi dyfodol disgleiriach i bobl ifanc yng Nghymru (ScoutsCymru)	8
Adroddiad Comisiynau Gwrando Blaenau Gwent (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)	11
Yn gwneud i arian wneud synnwyr (Money Ready)	14
Sut mae tlodi yn effeithio ar addysg plant: Mewnwelediad ac effaith gan Buttle UK (Buttle UK)	16
Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth: sut mae tlodi a digartrefedd yn cyfyngu ar fynediad pobl ifanc i brofiad llawn o addysg (Llamau)	18
Tlodi Plant - dull pwrpasol (Gweithredu dros Blant)	20
Adennill cyfleoedd chwarae yn y byd naturiol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi (Trails, Bales and Snails) (Lisa Turner)	22
Bwyd a Hwyl: Degawd o wahaniaeth yng Nghymru (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)	24
Camu 'Mlaen – Effaith rhaglenni ehangu mynediad o ran mynd i'r afael â thlodi rhwng cenedlaethau (Tîm Ehangu Cyfranogiad, Prifysgol Caerdydd)	26
Anweledig yn y Niferoedd: Tlodi cudd plant yng Nghymru sy'n chwilio am noddfa (Cyngor Ffoaduriaid Cymru)	28
Meithrin Natur – mynediad i'r amgylchedd naturiol sy'n newid bywydau go iawn (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)	30
Mae angen mwy o arian, gwasanaethau a phŵer ar blant, teuluoedd a chymunedau i ddileu tlodi plant yng Nghymru (Achub y Plant Cymru)	32
Mae'r 'tlodi o brofiad' yn niweidio datblygiad ein plant (Gweithredu dros Blant)	34
Tlodi plant yng Nghymru - safbwynt o'r rheng flaen (Barnardo's Cymru)	36
Gweithio gyda phlant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel ac ymgysylltu â nhw (Plant yng Nghymru)	38
Prosiect Contact Cymru - Hawlio gyda Hyder (Contact Cymru)	40

Y berthynas rhwng gofalu a thlodi mewn Gofalwyr Ifanc (Credud)	42
Mae Angen Stopio Siarad am y “Cap Budd-daliadau ar Gyfer Dau Blentyn” (Fairer Future)	44
Costau gofalu: Stori un teulu yng nghanol argyfwng cenedlaethol (Family Fund)	46
Hawliau Lles Pobl Sir Benfro: Hybu hyder ariannol i deuluoedd yn Sir Benfro (Cyngor Sir Penfro)	48
Prosiect chwarae i blant mewn llety dros dro (Chwarae Cymru)	50
Cael gwared ar y terfyn dau blentyn, meddai AS o Gymru (Plant yng Nghymru)	52
Gwaith ieuenctid, pobl ifanc a thlodi: Yr hyn maen nhw’n ei ddweud wrthym (Lab Arweinyddiaeth Gwaith Ieuenctid)	54
Tlodi, eithrio ac anghenion heb eu diwallu: Pam mae dysgwyr niwroamrywiol yn syrthio trwy’r bylchau yng Nghymru (Family Pathway)	56
Pam mae Gofal Plant All-Ysgol yn bwysig (Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs)	60
Galwad am gyfraniadau ar gyfer cylchgrawn Gaeaf 2025	62



18



48



8

Golygydd: Louise O'Neill

louise.oneill@childreninwales.org.uk

Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol
Caerdydd (SPARC), Caerdydd, CF24 4HQ

029 2034 2434

info@childreninwales.org.uk

Bluesky: [@childreninwales.org.uk](https://bsky.app/profile/childreninwales.org.uk)

Facebook: [@childreninwales](https://www.facebook.com/childreninwales)

Instagram: [@youngwalesciw](https://www.instagram.com/youngwalesciw)

LinkedIn: [Children in Wales](https://www.linkedin.com/company/children-in-wales)

Elusen Gofrestredig Rhif: 1020313

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 2805996

Nid yw'r farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn o
reidrwydd y farn Plant yng Nghymru, ac rydym
ni'n cadw'r haw i olygu cyn cyhoeddi.

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Hugh Russell

Croeso cynnes i rifyn Hydref 2025 o gylchgrawn Plant yng Nghymru.



Mae'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar ddarlun difrifol tlodi plant yng Nghymru. Ni ellir gorbwysleisio pa mor fawr yw'r broblem hon yng Nghymru, gan ei bod wrth wraidd gymaint o'r heriau eraill yr ydym yn eu hwynebu gyda'n gilydd yma.

Nododd adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree ar ddechrau'r flwyddyn¹ rai o effeithiau tlodi ar blant yng Nghymru. I roi un enghraifft, yn addysgol, mae effaith tlodi yn gosod plant dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion o gyfnod cynnar. Mae myfyrwyr Blwyddyn 6 sy'n profi tlodi dros ddwy flynedd y tu ôl i'w cyfoedion mewn rhifedd a darllen.

Mae ein gwaith ein hunain yn dangos dylanwadau tebyg tlodi, sy'n newid cwrs bywyd. Bob blwyddyn, mae Plant yng Nghymru, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, yn cynnal yr Arolygon Tlodi Plant a Theuluoedd, gan roi'r cyfle i ni amlygu lleisiau plant, rhieni ac ymarferwyr sy'n delio â chanlyniadau go iawn tlodi plant. Roedd yr adroddiad diweddaraf ar yr arolygon hyn², a ryddhawyd ym mis Chwefror, yn darlunio golygfa gynyddol ddigalon, gydag effaith gronnsu blyneddoddd o dlodi difrifol a gwasanaethau dan bwysau yn chwalu ymdeimlad o optimistiaeth pobl. Dywedodd un ymarferwr yn ei ymateb, *"Mae pobl yn colli gobaith ac yn cael eu gwthio ymhellach ac ymhellach i dlodi."*

Yn Plant yng Nghymru, mae mynd i'r afael â thlodi plant yn fotiff sy'n rhan greiddiol o lawer o'r hyn a wnawn, gan ei fod yn tanseilio mynediad plant at gynifer o'u hawlau. Mae ein Cyfarwyddwr Polisi, Sean O'Neill, wedi ysgrifennu yn y rhifyn hwn am ein taith ddiweddar i San Steffan lle cododd ef a minnau, ynghyd â sefydliadau aelod, y mater i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant yng Nghymru a ail-ffurfiwyd yn ddiweddar. Mae'n amlwg bod angen gweithredu ar lefel Llywodraeth y DU i newid y sefyllfa'n sylfaenol. Yn y cylchgrawn, byddwch yn darllen safbwynt Fairer Future ar sut y dylem fod yn canolbwyntio ein negeseuon ar hyn er mwyn cyflawni newid polisi.

Mae angen i ni hefyd weld Llywodraeth nesaf Cymru yn cyflawni newid cyfannol, mesuradwy, gan roi plant wrth wraidd ei rhaglen lywodraethu. Yn y rhifyn hwn, byddwch yn darllen darnau gan bartneriaid gan gynnwys Barnardo's Cymru, sydd wedi ysgrifennu am y gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi'r rhai sydd mewn tlodi ar unwaith, a'r hyn sydd angen newid ar lefel systemig yng Nghymru, fel y gellir lleihau'r ddibyniaeth honno ar atebion tymor byr ar y rheng flaen.

Rydym yn gwybod fod tlodi yn her groestoriadol – mae rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o ddioddef tlodi, neu mae'n dueddol o waethygu sefyllfaoedd y mae rhai grwpiau demograffig yn eu profi nad yw eraill yn eu profi. Mae darnau pwerus yn y rhifyn hwn yn cyffwrdd â phrofiad gofalwyr ifanc (Credur), plant sy'n chwilio am loches (Cyngor Ffoaduriaid Cymru) a phlant niwroddargyfeiriol (Family Pathway) fel enghreifftiau o'r sefyllfaoedd hyn.

Gallwn deimlo'n galonogol ynghylch ymdrechion amrywiol a sylweddol a geir ar draws y sector i liniaru effaith tlodi o ddydd i ddydd ar deuluoedd. Mae rhai enghreifftiau gwych mewn awdurdodau lleol ac asiantaethau'r trydydd sector yn cynnwys sicrhau bod bwyd ar gael i bobl (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed mewn penderfyniadau lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent), a sicrhau nad yw addysg yn cael ei heffeithio gan ddiffyg adnoddau (Buttle UK), er mwyn mynd i'r afael â heriau uniongyrchol teuluoedd.

Yn olaf, cefais fy nghyffwrdd yn arbennig o ddarllen am y gwaith sy'n cael ei wneud i alluogi plant i barhau i gael mynediad at eu hawl i chwarae,

wrth wynebu pwysau tlodi. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Chwarae Cymru ac i Lisa Turner am ysgrifennu am y pwyntiau hyn.


I bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn o'r cylchgrawn, diolch. Gyda'i gilydd, mae'r erthyglau hyn yn ffurfio cofnod enfawr o rai o'r dulliau ysbrydoledig sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag effeithiau problem drychinebus na allwn ganiatáu iddi barhau.

Diolch o galon!

Hugh

Cyfeiriadau

1. <https://www.jrf.org.uk/poverty-in-wales-2025>
2. <https://www.childreninwales.org.uk/cy/newyddion/children-wales-launches-its-8th-annual-child-family-poverty-survey-findings-report/>



Calendr Hyfforddiant

Tachwedd 2025 - Mawrth 2026

Dyma rai o'r cyrsiau hyfforddiant sydd ar gael i'ch helpu i gadw'n wybodus ac yn gyfredol. Mae aelodau'n cael gostyngiadau ar bob un o'n cyrsiau. Mae'r cyrsiau naill ai'n cael eu darparu ar-lein neu wyneb yn wyneb.



Tachwedd 2025

Pryder mewn Pobl Ifanc: Cefnogi Llesiant Pobl Ifanc

Dydd Iau, 20 Tachwedd 2025
09:30 – 16:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £126, Nad yw'n aelodau: £140

Sicrhewch wybodaeth hanfodol a dulliau ymarferol i ddeall a chefnogi pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda phryder yn y cwrs undydd hynod o fewnweledol hwn ar iechyd meddwl a gwytnwch.

Rhagfyr 2025

Grŵp B: Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sydd mewn Perygl

Dydd Mercher, 3 Rhagfyr 2025
09:30 – 16:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £126, Nad yw'n aelodau: £140

Mae'r cwrs hanfodol hwn yn darparu'r wybodaeth a'r hyder i adnabod, ymateb i, ac adrodd pryderon am ddiogelu sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc, ac oedolion mewn perygl.

Trwy eu Llygaid: Deall Effaith Tlodi Plant

Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2025
10:00 – 13:00

Living Room, 96-98 Neville St, Caerdydd

Aelodau: £72, Nad yw'n aelodau £80

Mae'r hyfforddiant hanner diwrnod hwn yn archwilio effaith tlodi plant ledled Cymru a'r DU, gan roi mewnwelediad a strategaethau ymarferol i weithwyr proffesiynol i herio anghydraddoldeb ac i gefnogi plant a theuluoedd yn well.

Grŵp C: Diogelu ar gyfer y Person Dynodedig a'r Ymarferwyr Uwch

Dydd Llun, 8 a
Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2025
09:30 – 16:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £252, Nad yw'n aelodau £280

Wedi'i gynllunio ar gyfer Arweinwyr Dynodedig Diogelu ac ymarferwyr uwch, mae'r cwrs hwn yn cryfhau eich arbenigedd wrth reoli cyfrifoldebau diogelu, gwneud penderfyniadau gwybodus, ac arwain arferion diogelu effeithiol.

Ionawr 2026

Cydnabod, Ymateb, Cefnogi: Mynd i'r Afael â Hunan-niweidio a Hunanladdiad mewn Pobl Ifanc

Dydd Iau, 22 Ionawr 2026
09:30 – 16:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £126, Nad yw'n Aelodau: £140

Mae'r hyfforddiant hwn yn darparu gwybodaeth a strategaethau ymarferol i ddeall, adnabod a chefnogi unigolion sydd mewn perygl o hunan-niwed a hunanladdiad, gan eich helpu i ymateb gyda hyder a thosturi.

PACE ac Adferiad wedi'i Lywio gan Drawma: Defnyddio PACE i Gefnogi Plant a Phobl Ifanc

Dydd Iau, 29 Ionawr 2026
09:30 – 16:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £126, Nad yw'n aelodau: £140

Mae'r cwrs hwn yn cynnig mewnwelediad allweddol i effaith trawma ar blant a phobl ifanc, ac yn dangos sut y gall egwyddorion PACE helpu i adeiladu perthnasoedd diogel a llawn ymddiriedaeth sy'n cefnogi adferiad a gwytnwch.

Chwefror 2026

Galar, Colled a Gwydnwch: Offerynnau ar gyfer Cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal

Dydd Mercher, 4 Chwefror 2026
09:30 – 16:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £126, Nad yw'n aelodau: £140

Mae'r hyfforddiant tosturiol ac ymarferol hwn yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall ac ymateb i alar a cholled ymhlith plant, gan gynnig offer i gefnogi iachâd emosiynol a gwytnwch.

Meithrin Gwydnwch: Deall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Dydd Mercher, 11 Chwefror 2026
10:00 – 13:00

Digwyddiad ar-lein

Aelodau: £72, Nad yw'n Aelodau: £80

Mae'r cwrs hanner diwrnod hwn yn dyfnhau eich dealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), trawma a gwytnwch, gan eich grymuso i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi'u heffeithio gan anawsterau cynnar mewn bywyd.

Grŵp C: Diogelu ar gyfer y Person Dynodedig a'r Ymarferwyr Uwch

Dydd Mawrth, 24 a
Dydd Mercher, 25 Chwefror 2026
09:30 – 16:00

Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Aelodau: £252, Nad yw'n aelodau £280

Wedi'i gynllunio ar gyfer Arweinwyr Dynodedig Diogelu ac ymarferwyr uwch, mae'r cwrs hwn yn cryfhau eich arbenigedd wrth reoli cyfrifoldebau diogelu, gwneud penderfyniadau gwybodus, ac arwain arferion diogelu effeithiol.

Mawrth 2026

Grŵp C: Diogelu ar gyfer y Person Dynodedig a'r Ymarferwyr Uwch


Dydd Mercher, 18 a
Dydd Iau, 19 Mawrth 2026
09:30 – 16:00

Adferiad, 36 Princes Drive, Bae Colwyn

Aelodau: £252, Nad yw'n aelodau £280

Wedi'i gynllunio ar gyfer Arweinwyr Dynodedig Diogelu ac ymarferwyr uwch, mae'r cwrs hwn yn cryfhau eich arbenigedd wrth reoli cyfrifoldebau diogelu, gwneud penderfyniadau gwybodus, ac arwain arferion diogelu effeithiol.

Digwyddiadau



Uwchgynhadledd Cymru Ifanc 2025 Dathlu Llais Ieuenctid a Hawliau Plant

Saturday, 15 November 2025, 10am – 4pm
SPARK, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ

Ymunwch â ni am ddiwrnod yn dathlu pŵer llais ieuenctid yng Nghymru. Fe'ch anogir yn gynnes i ddod â'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw i gymryd rhan yn y digwyddiad cyffrous a llawn ysbrydoliaeth hwn.

Mae'r Uwchgynhadledd eleni yn dilyn y Sgwrs Fawr: rhaglen genedlaethol o sesiynau creadigol lle rhannodd pobl ifanc sut mae eu hawliau'n cael eu gwireddu a pha newid maen nhw eisiau ei weld.

Mae'r digwyddiad hwn yn rhad ac am ddim i fynychu ac wedi'i gynllunio i fod yn gynhwysol ac yn groesawgar i bawb. Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly cofrestrwch eich diddordeb nawr - anfonir cadarnhadau erbyn diwedd mis Medi. Darperir cyfieithwyr a chymorth mynediad.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Butler, Swyddog Digwyddiadau
emma.butler@childreninwales.org.uk



Pencampwyr dros Blant: Manifesto ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc cyn etholiadau'r Senedd yn 2026


Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2025, 10.30am - 3pm
Y Neuadd, Y Senedd, Bae Caerdydd

Ymunwch â'n galwad i bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd wneud plant yn flaenoriaeth yn ystod yr ymgyrch etholiadol a thrwy gydol tymor nesaf y Senedd.

Trafodaethau panel, marchnad a chyfleoedd rhwydweithio. Agenda lawn i ddilyn. Byrsefni wedi'u darparu. Noddwyd gan Julie Morgan MS

Archebu trwy [Eventbrite](#)

Lawrlwythwch a darllenwch y Manifesto [yma](#)



Cynhadledd Flynyddol Plant yng Nghymru 2026 Llais Ieuenctid ar Waith - Rhoi Cyfranogiad wrth Galon Newid

Dydd Mercher, 25 Mawrth 2026, amser i'w gadarnhau
sbarclspark, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ

Prif Siaradwr: Yr Athro Laura Lundy
Arbenigwr blaenllaw ar hawliau a chyfranogiad plant

Diddordeb mewn cymryd rhan? Cysylltwch â'n Swyddog Digwyddiadau
ar emma.butler@childreninwales.org.uk

Bydd tocynnau Cyntaf i'r Felin ar werth ym mis Rhagfyr



Cefnogi dyfodol disgleiriach i bobl ifanc yng Nghymru

Kerrie Gemmell, ScoutsCymru



ScoutsCymru yw'r sefydliad aelodaeth ieuenctid mwyaf yng Nghymru, gyda thua 18,000 o aelodau. Rydym ni'n cefnogi miloedd o bobl ifanc ledled y wlad, gan gynnwys yn rhai o'r cymunedau trefol a gwledig mwyaf difreintiedig.

Helpu plant i ffynnu, nid dim ond goroesi

Nid yw tlodi plant yn ymwneud â diffyg incwm yn unig. Mae hefyd yn golygu colli allan ar y rhwydweithiau, y manau a'r profiadau sy'n helpu pobl ifanc i dyfu a ffynnu. Mae Sgowtio yn helpu i gau'r bylchau hynny trwy gynnig amgylcheddau diogel a chefnogol, mynediad i'r awyr agored, a chyfleoedd na fyddai llawer o blant yn eu cael fel arall.

Ar adeg pan fo absenoldeb o'r ysgol yn cynyddu, mae gan 1 o bob 6 person ifanc yng Nghymru gyflwr iechyd meddwl y gellir ei ddiagnosisio, ac mae pobl ifanc yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn NEET nag unrhyw le arall yn y DU, mae ScoutsCymru yn cynnig cefnogaeth gyson, yn y gymuned sy'n helpu i gadw diddordeb pobl ifanc, meithrin eu hyder, a chymryd camau cadarnhaol tuag at eu dyfodol.

Mae ScoutsCymru yn cyfrannu at sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a'r cyfle i wireddu eu potensial, waeth beth fo'u cefndir.

Trwy weithgareddau wythnosol rhesymol eu pris, anturiaethau awyr agored a gwirfoddoli, rydym ni'n rhoi cyfle i bobl ifanc:

- **Berthyn** – meithrin cyfeillgarwch mewn amgylchedd cefnogol
- **Tyfu** – datblygu sgiliau ar gyfer bywyd gan gynnwys arweinyddiaeth, gwydnwch a gwaith tîm
- **Cymryd rhan** – profi pethau na all teuluoedd sy'n wynebu caledi eu fforddio'n aml, o wersylla i gaiacio, heicio i raffau uchel
- **Cysylltu â natur** – sy'n adnabyddus am hybu lles, lleihau straen a gwella iechyd meddwl
- **Cael llais** – ennill hyder i fynegi eu hunain, rhannu eu barn a llunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Cyrhaeddiad cryf ar draws Cymru wledig a threfol

Rydym ni'n gwybod o ymchwil fod tlodi plant yng nghefn gwlad Cymru yn aml yn gudd ond yr un mor ddifrifol ag mewn lleoliad trefol, yn gysylltiedig â chostau trafnidiaeth, tai, ac unigedd. Mae Sgowtio mewn sefyllfa unigryw i gefnogi pob cymuned:

- Presennol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru
- Cael ei ddarparu gan wirfoddolwyr hyfforddedig sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau
- Hyblyg, yn seiliedig ar le, ac wedi'i deilwra i anghenion lleol

Rydym ni hefyd yn cyrraedd pobl ifanc a allai fod yn cael trafferth gyda mynychu'r ysgol yn rheolaidd, pryder cymdeithasol neu ddatgysylltiad, gan annog cyfranogiad a chysondeb mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Effaith amlwg

Mae Sgowtio yn rhoi dechrau gwell mewn bywyd i bobl ifanc – gyda manteision hirdymor i deuluoedd, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym ni'n gwybod bod:

- **94% o sgowtiaid 5–18 oed yng Nghymru** yn dweud eu bod wedi datblygu sgiliau a oedd yn ddefnyddiol yn ddiweddarach mewn bywyd
- Mae **88%** yn dweud eu bod wedi rhoi cynnig ar weithgareddau nad oeddent erioed wedi'u gwneud o'r blaen ac yn teimlo'n fwy hyderus, yn fwy cysylltiedig, ac yn fwy parod i arwain
- Mae **8 o bob 10 rhiant** yn credu bod Sgowtiaid yn helpu i ddatblygu sgiliau
- Roedd **53%** o Sgowtiaid yn teimlo'n barod i ddechrau eu swydd gyntaf, o'i gymharu â dim ond **37%** o'r rhai nad ydynt yn rhan o'r mudiad
- Mae **mwy na hanner** y Sgowtiaid yn dweud bod gwaith tîm a sgiliau arweinyddiaeth a gafwyd trwy Sgowtio wedi helpu eu gyrfaedd

Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â gwraidd achosion o bobl ifanc yn troi'n ystadegyn NEET, trwy feithrin hyder, sgiliau trosglwyddadwy ac ymdeimlad o bwrpas.

Gwerth eithriadol am arian

Mae Sgowtio yn cyflawni canlyniadau personol, cymdeithasol a chymunedol mesuradwy - **am ffracsiwn pris** llawer o ymyriadau ffurfiol.

- Mae model dan arweiniad gwirfoddolwyr yn golygu bod buddsoddiad yn ymestyn ymhellach
- Mae llawer o grwpiau'n cynnig cymorthdaliadau, banciau gwisgoedd a chronfeydd caledi
- Mae ein cefnogaeth yn helpu i leihau costau cyhoeddus yn y dyfodol trwy wella iechyd, sgiliau a rhagolygon swyddi

Am lai na hanner pris toesen Krispy Kreme Original Glazed™ bob wythnos, mae Sgowtio yn cynnig profiadau sy'n newid bywydau.

Yng Nghymru, dim ond £62.39 yw'r ffi aelodaeth flynyddol gyfartalog – mae hynny tua £1.20 yr wythnos. Am hyn, mae pobl ifanc yn cael mynediad at antur awyr agored, sgiliau ymarferol, cyfleoedd i arwain, a theimlad o berthyn sy'n para oes.

Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi mewn Sgowtio, mae'r enillion cymdeithasol yn sylweddol – o well iechyd meddwl a gweithgarwch corfforol i leihau unigrwydd a chymunedau cryfach.

Gweithio gyda'n gilydd er mwyn cael effaith

Wrth i Gymru adnewyddu ei dull o fynd i'r afael â thlodi plant, mae ScoutsCymru yn barod i chwarae ein rhan, yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws sectorau. Rydym ni eisoes yn:

- Creu partneriaethau ag ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol
- Cyrraedd pobl ifanc sy'n aml yn cael eu methu gan wasanaethau eraill

Mae ein gwaith yn eistedd ar groesffordd y Cwricwlwm i Gymru, y Polisi Chwarae a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan helpu i droi

uchelgais genedlaethol yn effaith go iawn ar bobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru.

Rydym ni hefyd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Strategaeth Tlodi Plant 2024 ac yn chwarae rôl ategol ochr yn ochr â rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Prydau Ysgol Am Ddim a Gwarant y Person Ifanc, gan ymestyn eu cyrhaeddiad drwy ddarparu cyfleoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol, lle mae cefnogaeth yn aml yn diflannu.

Sgowtiaid heddiw yw modelau rôl, gweithwyr, arweinwyr a rhieni yfory.

Os hoffech ddysgu mwy am ein gwaith, anfonwch e-bost at: lisa.newberry@scoutscymru.org.uk



Scouts 
Cymru

Adroddiad Comisiynau Gwrando Blaenau Gwent

Deall a Mynd i'r Afael ag Effaith yr Argyfwng Costau Byw ar Deuluoedd

Tania Hayward,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yn ddiweddar cyflwynodd Blaenau Gwent adroddiad ar ganfyddiadau o gyfres gynhwysfawr o gomisiynau gwrando a gynhaliwyd gyda rhieni a gofalwyr ar draws Blaenau Gwent. Y prif amcan oedd cael dealltwriaeth fanwl o sut mae'r argyfwng costau byw parhaus yn effeithio ar deuluoedd yn y gymuned, a gwerthuso effeithiolrwydd mentrau Awdurdodau Lleol a weithredwyd mewn ymateb i'r heriau a nodwyd gan drigolion.

Mewn cydweithrediad â'r Grŵp Strategol Costau Byw, hwyluswyd cyfres o sesiynau gwrando wedi'u targedu gyda dros 50 o rieni a gofalwyr oedd yn profi tlodi a chaledi economaidd-gymdeithasol ym Mlaenau Gwent. Darparodd y sesiynau hyn lwyfan i unigolion leisio eu profiadau bywyd, gan alluogi'r Awdurdod Lleol i werthfawrogi'n well y realiti amrywiol sy'n wynebu teuluoedd. Mae'r lleisiau a'r safbwyntiau a gasglwyd wrth wraidd yr adroddiad hwn, gan danlinellu'r gred bod gan y rhai yr effeithir arnynt fwyaf uniongyrchol gan drallod fewnwelediadau amhrisiadwy i'r polisïau a'r gwasanaethau sy'n llunio eu bywydau.

Themâu allweddol a nodwyd

Trwy ymgynghoriadau manwl, daeth chwe phrif thema i'r amlwg:

- **Tai:** Mynegodd rhieni bryderon ynghylch fforddiadwyedd, ansawdd a diogelwch tai. Codwyd materion fel costau rhent cynyddol, gwresogi annigonol, gorlenwi a thai cymdeithasol annigonol yn gyffredin
- **Pwysau Addysgol:** Roedd cost treulïau sy'n gysylltiedig ag ysgol, gan gynnwys gwisgoedd ysgol, teithiau a chyflenwadau, yn rhoi straen ychwanegol ar gyllidebau teuluoedd. Nododd rhai rhieni fod y costau hyn yn bygwth cyfranogiad llawn plant mewn cyfleoedd addysgol
- **Bwyd a Maeth:** Adroddodd llawer o deuluoedd am anawsterau cynyddol wrth gynnal deiet maethlon oherwydd cost bwyd cynyddol. Mae'r defnydd o fanciau bwyd a phantri cymunedol wedi cynyddu, a disgrifiodd rhai rhieni hepgor prydau bwyd i sicrhau bod eu plant yn cael eu bwydo

- **Budd-daliadau a Dyled:** Roedd cymhlethdod ac annigonolrwydd y system lles, ynghyd â dyled gynyddol, yn ffynonellau sylweddol o straen. Cafodd oedi mewn taliadau, lefelau budd-daliadau annigonol, a heriau wrth gael mynediad at gymorth eu crybwyll yn rheolaidd
- **Iechyd Meddwl:** Mae pwysau cronus ansicrwydd ariannol, ansefydlogrwydd tai, a phrinder bwyd wedi cyfrannu at ddirywiad mewn iechyd meddwl ymhlith rhieni a phlant fel ei gilydd. Roedd gorbryder, iselder, a theimladau o ynysu yn themâu cyffredin
- **Cyflogaeth:** Er bod cyflogaeth yn cael ei gweld fel llwybr allan o dlodi, tynnodd llawer o rieni sylw at y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, megis diffyg cyfleoedd gwaith hyblyg, gofal plant annigonol, a chyflogau isel sy'n methu â diwallu costau byw cynyddol

Camau gweithredu a mentrau'r Awdurdod Lleol

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, mae Awdurdod Lleol Blaenau Gwent wedi gweithredu ac ehangu ystod o brosiectau a gwasanaethau cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys grantiau wedi'u targedu ar gyfer gwisgoedd ysgol, datblygu Hyb Cymorth i Deuluoedd i wella cydlynw gwasanaethau, mwy o fynediad at gyngor ariannol a dyled, mentrau cymorth bwyd gwell, a chyflwyno digwyddiadau costau byw ychwanegol i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r rhai mewn angen. Mae buddsoddiad hefyd wedi'i wneud mewn cymorth cynenedigol a gwasanaethau iechyd meddwl gyda'r nod o fynd i'r afael â heriau uniongyrchol a hirdymor.

Cynlluniau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol

Gan adeiladu ar yr adborth o'r Comisiynau Gwranddo, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i wella hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau ymhellach. Mae camau gweithredu allweddol wrth symud ymlaen yn cynnwys:

- Ehangu'r model Hyb Cymorth i Deuluoedd i gyrraedd mwy o deuluoedd mewn angen
- Datblygu partneriaethau newydd gyda sefydliadau lleol ac elusennau i gryfhau'r rhwyd ddiogelwch ar gyfer aelwydydd agored i niwed

- Gwella cyfathrebu ac allgymorth i sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael
- Parhau i ymgynghori'n rheolaidd â rhieni a gofalwyr, gan sicrhau bod eu lleisiau'n llywio datblygiad parhaus polisi ac arfer

Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau pwysigrwydd rhoi teuluoedd ac unigolion â phrofiad bywyd wrth wraidd llunio polisiâu. Drwy wrando ar y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan dlodi ac argyfwng costau byw, mae Blaenau Gwent yn anelu at weithredu newid ystyrlon a chynnydd tuag at gymuned fwy cyfartal. Bwriad y canfyddiadau a'r argymhellion a gynhwysir yma yw cefnogi datblygiad strategaethau ymatebol, tosturiol ac effeithiol sy'n lleihau anghydraddoldeb ac yn gwella cyfleoedd i bob plentyn a theulu sy'n byw mewn amgylchiadau incwm isel.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Louise Bishop

louise.bishop@blaenau-gwent.gov.uk

Carolyn Jenkins

carolyn.jenkins@blaenau-gwent.gov.uk

Emma Bennett

emma.bennett@blaenau-gwent.gov.uk



ADRODDIAD Y COMISIYNAU GWRANDO AR GYFER RHIEINI

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau o sesiynau gwrando gyda 50 o rieni ym Mlaenau Gwent, gyda'r nod o ddeall effaith yr argyfwng costau byw ar deuluoedd

Daeth saith thema allweddol i'r amlwg: **tai, costau ysgol, bwyd a maeth, budd-daliadau a dyled, iechyd meddwl, tanwydd a chyflogaeth**. Ar gyfer pob mater, ymatebodd yr awdurdod lleol gyda chamau gweithredu wedi'u targedu, gan gynnwys gwasanaethau cymorth newydd, grantiau, a newidiadau polisi.

TPwysleisiodd y fenter, a ysgogwyd gan y grŵp strategol Costau Byw, bwysigrwydd clywed yn uniongyrchol gan y rhai yr effeithir arnynt gan dloidi i arwain newid ystyrlon. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu cynlluniau yn y dyfodol i wella mynediad at wasanaethau, gan gynnwys Hyb Cymorth i Deuluoedd, cymorth cynenedigol, a digwyddiadau costau byw estynedig.




Mae'r dull yn meithrin empathy, ymddiriedaeth, a chydweithrediad rhwng teuluoedd a chomisiynwyr, gyda mwy o sesiynau gwrando wedi'u cynllunio drwy gydol y flwyddyn. Ar ôl ymgynghori â 50 o rieni hyd yn hyn ar y themâu isod, rydym wedi darganfod **'beth ddwywedoch chi' a 'beth wnaethon ni'**.



Dywedoch chi: Roedd cartrefi'n annïogel, yn llaith, ac roedd atgyweiriadau wedi'u gohirio.

Gwnaethon ni: Creu cod QR ar gyfer adrodd am broblemau, dod â swyddogion tai i sesiynau, a chysylltu â landlordiaid.



Dywedoch chi: Roedd bwyd iach yn anfforddiadwy, ac roedd rhai teuluoedd yn hepgor prydau bwyd.

Gwnaethon ni: Dosbarthu parseli bwyd, sesiynau coginio, a hyrwyddo talebau Cychwyn Iach.



Dywedoch chi: Roedd straen a phryder yn cynyddu.

Gwnaethon ni: Cynnig cefnogaeth trwy Dechrau'n Deg, ymweliadau â Meddygon Teulu, ac adnoddau iechyd meddwl a rennir.



Dywedoch chi: Gwnaeth contractau dim oriau a chostau gofal plant waith yn anhyfyw.

Gwnaethon ni: Annog gwell arferion cyflogaeth a chynnig cyngor ariannol a chymorth hyfforddi.



Dywedoch chi: Roedd gwisgoedd ysgol ac ychwanegolion ysgol yn rhy ddud.

Gwnaethon ni: Gofyn i ysgolion leihau costau, sefydlu cynlluniau ailgylchu, a chefnogi ehangu gofal plant am ddim.



Dywedoch chi: Roedd oedi gyda dyled a budd-daliadau yn gadael teuluoedd heb hanfodion.

Gwnaethon ni: Agor canolfannau cymorth, cynnal digwyddiadau cyngor ariannol, a mynd i'r afael â benthyca arian anghyfreithlon.



Dywedoch chi: Roedd gwresogi yn anfforddiadwy.

Gwnaethon ni: Dosbarthu talebau tanwydd ac agor 18 o Hybiau Cynnes ar draws yr ardal.



Hyb Cymorth i Deuluoedd: Un drws ffrynt ar gyfer yr holl wasanaethau cymorth.

Cymorth Cynenedigol: Cyngor arbed costau i rieni beichiog.

Mwy o Wrando: Byddwn yn siarad ag aelodau hyn y gymuned nesaf.

Allgymorth Gwledig: Digwyddiadau mewn mwy o ardaloedd i gyrraedd pob teulu.

GWYBODAETH GYSWLLT

FGwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

fis@blaenau-gwent.gov.uk Ffôn: 01495 369610



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



Yn gwneud i arian wneud synnwyr

Liam O'Sullivan, Money Ready

Mae Money Ready (MyBnk gynt) yn elusen addysg ariannol flaenllaw, sydd wedi bod yn weithredol yng Nghymru ers mis Mai 2024. Pam fod hyn yn bwysig? Mae angen i bawb allu rheoli eu harian. Ond nid yw bron i ddwy ran o dair o oedolion ifanc yn cofio derbyn unrhyw addysg ariannol o gwbl, ac mae 53 y cant yn poeni na fyddant byth yn ddiogel yn ariannol. Mae llythrennedd ariannol gwael yn ganolog i lawer o'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu heddiw, megis problemau iechyd meddwl cynyddol, digartrefedd a diweithdra, a all o bosibl dragwyddoli tlodi. Efallai na fydd gan deulu sydd dan straen ariannol yr amser, yr hyder na'r wybodaeth i drosglwyddo sgiliau rheoli arian ac nid yw'n rhywbeth sy'n cael ei addysgu'n systematig ym mhob ysgol.

Credwn y gellir defnyddio addysg ariannol fel offeryn i dorri'r cylch, trwy helpu pobl ifanc i

ddatblygu sgiliau ynghylch cyllidebu, bancio, deald credyd ac adeiladu arfer cynilo. Gyda'r canlyniad o rymuso pobl ifanc i wneud penderfyniadau a dewisiadau ariannol gwybodus.

Nod Money Ready yw pontio'r bwlch hwn, gan weithio gyda dros 50,000 o unigolion ledled y DU bob blwyddyn, gan ddarparu rhaglenni addysg ariannol effaith uchel dan arweiniad arbenigwyr ar bynciau fel cynilo, dyled a chyllid myfyrwyr.

Yr angen

Mae 48% o blant 7–11 oed yn dweud nad oeddent wedi derbyn elfennau allweddol o addysg ariannol yn yr ysgol nac yn eu cartrefi.

Mae 70% o bobl ifanc 18–24 oed yn gwario arian ar rywbeth y maent yn ei ailystyried.

Mae 41% o rieni yn pryderu am bwysau ar blant i brynu.

Ein dull

Mae ein gwersi arian am ddim ac wedi'u hariannu'n llawn yn hwyl, yn ddifyr ac yn gofiadwy gan ddefnyddio gemau, fideos, a senarios a heriau bywyd go iawn. Rydym yn teilwra sesiynau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc o 4 oed, gan helpu cyfranogwyr i ddod yn gynilwyr, gwarwyr a defnyddwyr hyderus. Mae llawer o raglenni 16+ oed hefyd yn cynnig cymhwyster Rheoli Arian Lefel 1.

Ein heffaith

Dyweddodd 87% o ddysgwyr eu bod yn teimlo'n hyderus wrth reoli eu harian ar ôl dilyn ein rhaglen.

Mae 70% o blant yn cadw at eu cynlluniau cynilo arian flwyddyn yn ddiweddarach.

Mae 78% o ddisgyblion yn deall y gall yr hyn maen nhw'n ei wneud gyda'u harian heddiw wneud gwahaniaeth i'w dyfodol.

Rydym yn awyddus i weithio yn arbennig gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ac anodd eu cyrraedd yn arbennig, fel pobl sy'n gadael gofal, plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl ag amhariad ar y synhwyrâu ac anghenion dysgu ychwanegol. Gall y maint grŵp nodweddiadol, sy'n ddibynnol ar y rhaglen sy'n cael ei chyflwyno, fod yn unrhyw le o 5 neu 6 pherson hyd at ddosbarth o 30 ar gyfer sesiynau ysgol. Mae llawer o'n sesiynau yn cael eu cyflwyno yn y cnaud ac mae gennym hefyd y dewis i'w cyflwyno'n rhithwir.

Mae ein gwaith yng Nghymru newydd ddechrau a byddem yn awyddus i ganfod sut y gallwn gydweithio a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw. Rydyn ni'n dod ag iaith gyllid yn fyw fel bod pawb yn gallu llywio eu harian yn hyderus, ni waeth ble maen nhw'n dechrau.

Os hoffech ragor o wybodaeth neu i drefnu galwad i ddarganfod mwy, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy ein gwefan: <https://moneyready.org/> neu e-bostiwrch: cymru@moneyready.org

Gallwch chi hefyd ddod o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol.





Sut mae tlodi yn effeithio ar addysg plant: Mewnwelediad ac effaith gan Buttle UK

**Kate Zaczek, Dr Naomi Harflett a Tom Rowe
Buttle UK**

Mae Buttle UK yn elusen genedlaethol sy'n ymroddedig i gefnogi plant a phobl ifanc ledled y DU sy'n byw mewn tlodi ac argyfwng. Ein cenhadaeth yw gwella canlyniadau emosiynol, addysgol a chymdeithasol drwy ein grantiau Chances for Children; pecynnau cymorth unigryw hyd at £2,400, wedi'u teilwra i anghenion pob plentyn. Mae llawer o'r plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda hwy wedi byw drwy argyfyngau megis cam-drin domestig, digartrefedd, esgeulustod, profedigaeth neu estroniaeth.

Rhwysterau i addysg i blant mewn tlodi

Mae ffigurau diweddar yn dangos bod 31% o blant yng Nghymru ar hyn o bryd yn byw mewn tlodi¹. Rydym yn gwybod bod tlodi ac addysg yn gysylltiedig yn gynhenid. Mae adroddiad diweddar gan JRF yn tynnu sylw at y bylchau enfawr mewn cyrhaeddiad i blant yng Nghymru yn ôl incwm eu cartref – dim ond 41% o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd graddau TGAU A*-C, o'i gymharu â 71% o'r rhai nad ydynt yn eu derbyn².

Yn gynharach eleni cynhaliodd Buttle UK ymchwiliad i archwilio'r berthynas rhwng caledi ariannol ac

addysg³. Roedd ymatebion arolwg gan 825 o rieni a gofalmwyr yn y DU a oedd wedi profi caledi ariannol yn tynnu sylw at yr effaith ddinistriol y mae tlodi yn ei gael ar ymgysylltiad plant gydag addysg. Dywedodd chwech o bob deg rhiant a gofalmwr wrthym fod gallu eu plant i ymgysylltu â dysgu wedi'i leihau oherwydd newyn neu flinder. Adroddodd rhieni a gofalmwyr fod presenoldeb ysgol cyfartalog eu plant yn 78% – mae hyn yn is o lawer na'r ffigwr presenoldeb o 91% i blant yng Nghymru⁴. Pan ofynnwyd i rieni a gofalmwyr ba adnoddau addysgol allweddol oedd yn anfforddiadwy i'w cartref, adroddodd:

- 82% nad oeddent yn gallu fforddio gliniadur neu dabled
- 69% nad oeddent yn gallu fforddio teithiau ysgol
- 61% nad oeddent yn gallu fforddio gweithgareddau allgyrsiol

Cefnogi ymgysylltiad ag addysg yng Nghymru

Mae ein grantiau Chances for Children yn becynnau cymorth unigryw, wedi'u teilwra i

anghenion unigol pob plentyn, gan ddarparu eitemau a gweithgareddau i gefnogi ymgysylltiad plant ag addysg, hyrwyddo lles cymdeithasol ac emosiynol a gwella'r amgylchedd cartref. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae ceisiadau yng Nghymru wedi cynyddu 12%. Yn 2024-25 dyfarnwyd bron £300,000 gennym, gan ariannu 178 o grantiau a chefnogi 374 o blant a phobl ifanc ledled Cymru. O'r cyfanswm hwn, dyrannwyd £105,022 yn benodol i gefnogi addysg. Roedd hyn yn cynnwys gliniaduron neu dabledi i gefnogi gwaith ysgol, gwisg ysgol newydd i alluogi plant i fynd i'r ysgol, teganau, llyfrau a gemau i wella cyfleoedd dysgu, a mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol i archwilio rhywbeth maent yn ei fwynhau, a gwneud ffrindiau.

Roedd rhaid i'r brodyr a chwiorydd, Anna, 6 oed a Luke⁵, 12 oed, adael eu teganau, dillad a'u heiddo pan orfodwyd hwy a'u mam i ddianc o'u cartref oherwydd trais domestig. Fe'u lletywyd mewn llety dros dro, i fwrdd o'u hysgol a'u ffrindiau blaenorol, ac roedd rhaid iddynt gychwyn eto mewn ardal a ysgol newydd. Roeddent yn teimlo'n hynod o ynysig ac roedd eu gwaith ysgol wedi'i effeithio. Roedd grant Chances for Children yn gallu eu cefnogi gyda'r eitemau yr oedd eu hangen arnynt yn eu hysgol newydd ac i ddisodli rhai o'r eitemau yr oeddent wedi'u colli. Dywedodd eu mam sut y bu'r grant yn gymorth:

"Byddwn wedi bod ar goll heb y grant hwn. Fe ddiangais i a'm plant rhag trosedd a gadawsom gyda'r hyn y gallem ei gario. Roedd yn rhaid i'r plant newid ysgol felly roeddwn yn gallu prynu gwisg ysgol newydd iddyn nhw gyda'r grant ac yn gallu disodli eu beiciau. Cafodd fy hynaf hefyd gronfwrdd i'w helpu gyda'i waith ysgol." Parent, Wales

Rydym yn casglu adborth yn rheolaidd gan rieni a gofawyr sy'n derbyn ein grantiau. Yn 2024-25, adroddodd 88% o rieni a gofawyr yng Nghymru fod ymgysylltiad eu plentyn neu eu person ifanc ag addysg wedi gwella o ganlyniad i'r grant a dderbyniwyd.

Edrych ymlaen

Gyda thros 3 o bob 10 plentyn yng Nghymru yn byw mewn tldi, yn Buttle UK rydym yn ymwybodol iawn fod mwy i'w wneud i gefnogi plant mewn tldi i ymgysylltu ag addysg. Rydym yn annog sefydliadau

ledled Cymru sy'n cefnogi plant a phobl ifanc mewn caledi ariannol ac sydd wedi profi argyfwng i archwilio ein meini prawf cymhwyster ar gyfer grant Chances for Children: www.buttleuk.org/apply-for-a-grant/chances-for-children-grants/.

Wrth symud ymlaen, fel rhan o'n strategaeth newydd 2025-30⁶, rydym yn anelu at gael hyd yn oed mwy o effaith ar blant mewn tldi drwy ddatblygu rhaglenni cymorth hirdymor ar gyfer cymunedau sy'n wynebu'r heriau anoddaf, a thrwy adeiladu ein gwaith dylanwadu i newid y systemau sy'n dal plant a phobl ifanc yn ôl.

Os hoffech ddysgu mwy am ein gwaith, anfonwch e-bost at Kate Zaczek, Swyddog Datblygu Grantiau: katez@buttleuk.org

Cyfeiriadau

1. End Child Poverty (2025), www.endchildpoverty.org.uk/child-poverty-2025/
2. Joseph Rowntree Foundation (2025), Tldi yn y DU 2025
3. Bydd yr adroddiad llawn, 'Tyfu i Fyny mewn Tldi: Archwilio'r Bwlch Addysg', yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.
4. Llywodraeth Cymru (2025), Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 2 Medi 2024 i 25 Gorffennaf 2025 www.gov.wales/attendance-pupils-maintained-schools-2-september-2024-25-july-2025-html
5. Mae enwau wedi'u newid
6. www.buttleuk.org/what-we-do/our-services/strategy-mission-values/





Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth: sut mae tlodi a digartrefedd yn cyfyngu ar fynediad pobl ifanc i brofiad llawn o addysg

Mark Wilmore, Llamau

Pan fyddwn ni'n meddwl am addysg, mae'n hawdd dychmygu ystafelloedd dosbarth, gwersi ac arholiadau. Ond mae addysg yn llawer mwy na hynny. Mae'n ymwneud â chyfeillgarwch a adeiladir trwy glybiau ar ôl ysgol, hyder a enillir ar dimau chwaraeon, a chreadigrwydd a sbardunir gan gerddoriaeth neu ddrama. Mae hefyd yn ymwneud â chael yr offer i gadw i fyny â gwaith cartref ac ymchwil mewn byd lle mae mynediad digidol yn hanfodol.

I bobl ifanc sy'n profi tlodi neu ddigartrefedd, mae'r rhannau hanfodol hyn o addysg yn aml y tu hwnt i gyrraedd.

Y bwlch digidol mewn addysg

I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, mae gwaith cartref, adolygu a hyd yn oed gwersi yn dibynnu ar dechnoleg. Ond nid oes gan lawer o bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan Llamau fynediad dibynadwy at liniaduron, llechenni na Wi-Fi gartref. Heb yr offer cywir, mae cadw i fyny â gwaith ysgol

bron yn amhosibl, gan eu gadael allan o'r union gyfleoedd sy'n helpu eu cyfoedion i ffynnu.

Mae Llamau yn gweithio i bontio'r bwlch hwn drwy ddarparu dyfeisiau digidol, manau dysgu diogel a chefnogaeth addysgol wedi'i theilwra. Mae'r gefnogaeth hon yn rhoi cyfle i bobl ifanc nid yn unig gwblhau eu hastudiaethau ond hefyd i ennill sgiliau digidol hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Colli cyfleoedd mewn gweithgareddau allgyrsiol

Pan fydd teuluoedd yn ei chael hi'n anodd yn ariannol, gweithgareddau allgyrsiol fel teithiau ysgol, clybiau chwaraeon a gwersi cerddoriaeth yw'r pethau cyntaf i fynd yn aml. I'r rhai heb gartref sefydlog, efallai na fydd y profiadau hyn yn opsiwn o gwbl.

Ac eto mae'r gweithgareddau hyn ymhell o fod yn 'ychwanegol'. Maen nhw'n helpu pobl ifanc i feithrin hyder, gwydnwch a chysylltiadau cymdeithasol. Nhw yw lle mae llawer yn darganfod

talentau a diddordebau sy'n llunio eu dyfodol. Mae colli allan ar y profiadau hyn yn golygu colli mynediad at flociau adeiladu hanfodol ar gyfer bod yn oedolyn.

Yn Llamau, rydym yn creu cyfleoedd i bobl ifanc archwilio eu diddordebau, gwneud ffrindiau a thyfu mewn hyder: o brosiectau creadigol i brofiadau dysgu grŵp sy'n ennyn chwilfrydedd a chysylltiad.

Dysgu y tu hwnt i ffiniau: pobl ifanc yn arwain taith i Wlad Pwyl a ariennir gan Taith

Un enghraifft ysbrydoledig yw cyfnewid dysgu dan arweiniad pobl ifanc Llamau i Wlad Pwyl, a ariennir gan Taith, rhaglen ryngwladol Cymru ar gyfer addysg fyd-eang a chyfnewid diwylliannol.

Ym mis Hydref eleni, teithiodd grŵp o bobl ifanc a gefnogwyd gan Llamau i Wlad Pwyl ar daith a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu, arweinyddiaeth a chysylltiad, gyda phobl ifanc yn llunio'r daith o'r cychwyn cyntaf.

Daeth y syniad gan grŵp arweinyddiaeth My Way Home [Fy Ffordd Adref] Llamau, lle wythnosol lle mae pobl ifanc yn cwrdd i rannu profiadau a llunio newid. Ar ôl gweithio gyda'r Senedd eisoes ar faterion LHDTG+ a chyd-gynhyrchu adnoddau gyda Chymorth i Fenywod Cymru, roedd y grŵp eisiau dylunio profiad rhyngwladol ystyrlon wedi'i wreiddio yn eu gwerthoedd.

Ar ôl trafodaethau meddylgar, fe wnaethant ddewis Gwlad Pwyl, gwlad sydd â hanes cymhleth o orthrwm a gwydnwch, i ddyfnhau eu dealltwriaeth o faterion LHDTG+, hawliau dynol a hunaniaeth ddiwylliannol.

Roedd y daith yn cydbwyso addysg, trochi diwylliannol ac amser i fyfrio. Roedd y daith yn cynnwys archwilio hanes Iddewig yn Amgueddfa Galicja, ymweld ag Auschwitz gyda chymorth wedi'i lywio gan drawma, a chysylltu â phobl ifanc Pwylaidd trwy gyfnewid diwylliannol. Cofnododd rhai cyfranogwyr eu profiadau trwy flogiau a fideos, gan rannu eu myfyrdodau yn eu geiriau eu hunain.

Roedd y grŵp yn cynnwys pobl ifanc draws, person sy'n defnyddio cadair olwyn ac eraill sy'n niwroamrywiol neu sydd wedi wynebu anfantais economaidd. I rai, mae addysg draddodiadol wedi

cael ei tharfu neu'n anhygyrch, felly mae'r daith hon yn cynnig ffordd newydd o ddysgu: trwy brofiad bywyd, empathi ac arweinyddiaeth.

Dyma'r tro cyntaf i Llamau gefnogi cyfnewid dysgu rhyngwladol o'r fath dan arweiniad pobl ifanc, gan ddangos beth sy'n bosibl pan nad ymgynghorir â phobl ifanc yn unig ond pan gânt eu grymuso'n wirioneddol i arwain.

Yr effaith ehangach

Dylai addysg fod yn fwy na phasio arholiadau. Dylai helpu pobl ifanc i feithrin yr hyder a'r sgiliau i ffynnu fel oedolion. Ond pan fydd tlodi a digartrefedd yn tynnu mynediad at ddysgu digidol a gweithgareddau allgyrsiol, mae pobl ifanc yn wynebu anfantais ar sawl lefel: yn academiaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Dyna pam mae Llamau wedi ymrwymo i chwalu rhwystrau. Gyda'r cymorth cywir, gall pob person ifanc nid yn unig gael mynediad i'r ystafell ddosbarth ond hefyd brofi'r cyfleoedd ehangach sy'n eu helpu i ffynnu.

Ein cred

Yn Llamau, credwn fod pob person ifanc yn haeddu mwy na dim ond sedd yn yr ystafell ddosbarth: maen nhw'n haeddu'r cyfle i ffynnu. Mae hynny'n golygu darparu mynediad digidol, creu mannau cynhwysol i ddysgu a thyfu, a sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn cael ei eithrio o'r cyfleoedd a all newid eu bywyd.

Llun sy'n cyd-fynd: Ein pobl ifanc yn cwrdd â'u cymheiriaid Pwylaidd ac yn rhannu diwylliant a thraddodiadau (trwy ffeithiau, cwisiau a bwyd!)

Llamau

Imagine a World Without Homelessness



Tlodi Plant - dull pwrpasol

Sarah Edwards,
Gweithredu dros Blant

Ym Mlydedd Fflint, Gogledd-ddwyrain Cymru, nid yw tlodi bellach yn gysyniad pell — mae'n realiti dyddiol sy'n effeithio ar les corfforol ac emosiynol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn Prosiect Teuluoedd Fflint Gweithredu dros Blant, rydym yn gweld hyn yn uniongyrchol. Mae ein gwaith therapiwtig wedi'i wreiddio mewn perthnasoedd, wedi'i adeiladu ar ymddiriedaeth, ac wedi'i lunio gan anghenion unigryw pob plentyn. Ond yn gynyddol, rydym yn cefnogi teuluoedd y mae eu gallu i ffynnu yn cael ei erydu gan dlodi.

Mae ein gweledigaeth yn Gweithredu dros Blant yn syml: dylai pob plentyn a pherson ifanc gael

plentyndod diogel a hapus, a'r sylfeini sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Eto i gyd, ym Mlydedd Fflint, rydym yn gweld y gwrthwyneb. Mae teuluoedd yn wynebu ansicrwydd bwyd, tai annigonol, a chostau ynni cynyddol.

Mae plant yn mynd heb wres, lle, neu faeth priodol. Mae'r caledi corfforol hyn yn weladwy — ond mae'r effaith emosiynol yn aml yn gudd. Mae rhieni a gofalwyr yn dweud wrthym fod eu plant yn cael trafferth gyda phryder, problemau cysgu, dibyniaeth ar sgriniau, ac ymddygiadau heriol. Nid digwyddiadau unigol yw'r rhain. Maent yn symptomau o argyfwng ehangach. Pan fo

teuluoedd yn canolbwyntio ar oroesi — talu biliau, sicrhau bwyd, cadw'r goleuadau ymlaen — mae presenoldeb emosiynol yn dod yn foethusrwydd. Mae trefnau'n chwalu, ffiniau'n pylu, ac mae straen yn mynd yn ormodol. Gall un rhwystr arall — car yn torri i lawr neu ffurflen gymhleth — newid y cydbwysedd. Mae oedolion wedi'u dadreoleiddio yn cyfrannu at gylchoedd o straen emosiynol, ac mae plant yn ymateb yn yr un modd. Mae pob ymddygiad yn neges: angen cael eich gweld, eich clywed, a'ch deall.

Yn Prosiect Teuluoedd Fflint Gweithredu dros Blant, nid ydym yn barnu — rydym yn gwrando ac yn cynnig cymorth emosiynol un-i-un wedi'i deilwra ar gyfer plant a phobl ifanc, gan weithio'n agos gyda ysgolion, partneriaid ac asiantaethau i adeiladu gwytnwch. Rydym hefyd yn darparu cymorth ymarferol drwy ein canolfan gefnogi a mynediad at gronfeydd teuluol a grantiau.

Yn bwysig, nid rhoddion arian parod yw'r grantiau hyn. Pryniannau wedi'u targedu ydynt sy'n diwallu anghenion penodol. Yn aml, mae teuluoedd yn gofyn am fwyd, ond mae ein hymarferwyr wedi darganfod bod eitemau eraill — wedi'u teilwra i fyd emosiynol y plentyn — hyd yn oed yn fwy trawsnewidiol. Rydym wedi darparu gwisgoedd ysgol i blant sy'n tyfu, trampolinau i gefnogi rheoleiddio emosiynol, a chaeadau trampolinau i greu mannau encilio diogel. Mae esgidiau rholio a datgelyddion metel wedi helpu brodyr a chwiorydd i ganolbwyntio'n unigol. Rhoddodd cwpwrdd dillad ymdeimlad o drefn ac eiddo i un ardddegwr. Caniataodd gwisg cadet i berson ifanc gymryd rhan mewn gweithgaredd a roddodd ymdeimlad o berthyn. Helpodd costau tacsî deuluoedd i fynychu apwyntiadau hanfodol. Rhoddodd pas campfa ffordd i ardddegwr ryddhau straen. Gallodd cerdyn SIM helpu rhiant i gwblhau ffurflen credyd cynhwysol.

Efallai bod yr eitemau hyn yn ymddangos yn fach, hyd yn oed yn foethus, pan fo bwyd a rhent yn bryderon brys. Ond maent yn bwerus. Maent yn lleddfu straen, yn adfer urddas, ac yn creu lle emosiynol. Maent yn caniatáu i blant deimlo'n gynwysedig, wedi'u trefnu, ac yn ddiogel. Maent yn helpu rhieni i anadlu, ail-grwpio, ac ail-ymgysylltu. Ac yn bwysicaf oll, maent yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu gweld — nid

yn unig fel dibynyddion, ond fel unigolion gyda lleisiau, anghenion, a breuddwydion.

Mae cymorth ariannol wedi'i deilwra yn un rhan o'n gwaith yn unig. Ond gall fod yn ganolog. Mae'n adeiladu ymddiriedaeth, yn meithrin gwytnwch ac ymgysylltiad, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer cysylltiadau dyfnach. Mae'n troi argyfwng yn symudiad. Ac mae'n dod â'n gweledigaeth — plentyndodau diogel, hapus, a ffyniannus — o fewn cyrraedd.

Os hoffech ddysgu mwy am y gwaith hwn yn Sir y Fflint, cysylltwch â:

Sarah.Edwards@actionforchildren.org.uk





Adennill cyfleoedd chwarae yn y byd naturiol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi

Lisa Turner
Trails, Bales and Snails

Am y flwyddyn ddiwethaf, bu fy merch, 'B', (10 oed) a minnau'n cyflawni'r **Her Chwarae ym Myd Natur am Flwyddyn**. Bob dydd, rydyn ni'n mynd allan ac yn dod o hyd i rywbeth hwyl i'w wneud yn y byd naturiol. Mae'r hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod wedi gwneud i mi ailfeddwl fy rhagdybiaethau am yr hyn sydd bwysicaf ar gyfer y math hwn o chwarae a pha mor werthfawr ydyw fel adnodd hawdd ei gyrraedd i'r plant hynny sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru heddiw...

Daeth y sylfeini ar gyfer yr her o'r argyfwng Covid. Fel rhiant sengl, roedd fy merch a minnau, yn sydyn, yn gaeth i'r tŷ ar ein pennau ein hunain am wythnosau bwygilydd. Penderfynais y bydden ni'n mynd allan i ble bynnag y gallen ni ac archwilio'r byd naturiol, ond doedd gen i ddim syniadau

ac, er syndod i mi, prin oedd yr help ar y we hefyd. Roeddwn i'n brin o opsiynau yn fy mhen, yn wahanol i'r cyngor di ben draw a ddaw pan fyddwch chi'n meddwl prynu teganau neu'n dod o hyd i adloniant ar-lein.

Yn araf dros y blynyddoedd Covid, fe wnaethon ni ddod o hyd i bethau i'w gwneud. Bydden ni'n mynd i loetran yn y parc lleol lle bydden ni'n siglo ar goed ac yn chwarae 'y tri mochyn bach'. Byddwn i'n trefnu helfeydd trysor a helfeydd sborion a bydden ni'n creu trwythau a phersawrau. Fe wnaethon ni wella, ond roedd y repertoire o syniadau yn rhy fach ac, yn aml, roedden ni'n aros i mewn oherwydd na allen ni feddwl am unrhyw reswm i fynd allan.

Ac felly fe ddaeth yr her, cyn i'm merch fynd yn rhy hen i chwarae gyda mi, gan ein hysgogi i ddod o hyd i bethau y gallen ni eu gwneud drwy gydol y flwyddyn. Fe gychwynnon ni ar 1 Ionawr heb unrhyw syniadau, ac fe gawson ni ein hunain yn chwarae â ffyn wrth goeden ar ystad o dai. Fe wnaethon ni greu cuddfan fach. Doedd hi ddim yn guddfan arbennig o drawiadol, ond roedd yn llawer o hwyl er ei bod hi'n lle gwlyb ac oer. Drannoeth, fe wnaethon ni ddod o hyd i enfys y tu mewn a cheisio ei adlewyrchu a rhoi pethau ynddo. A'r diwrnod wedyn, roedd y pwll yn ein gardd wedi rhewi ac fe wnaethon ni dorri'r iâ a chwarae gyda'r darnau. Yn araf bach, roedd y ffaith bod rhaid i ni fynd ati i chwilio am bethau i'w gwneud yn cynnig syniadau i ni.



Mae hyn wedi synnu rhai o'm perthnasau hyn a ffrindiau, a dydyn nhw ddim yn deall pam ei fod yn rhywbeth sy'n werth ei grybwyll ('mae plant yn gwneud y pethau hyn'). Tybed a ydyn nhw'n gwneud hynny mewn gwirionedd, nawr. Mae'n eironig bod plant yn aml, hyd yn oed mewn ardaloedd tlotach sydd â llawer o adnoddau naturiol, yn aros y tu mewn y dyddiau hyn, gan fod yn gaeth i eitemau electronig sy'n gaethiwus, yn gostus ac sy'n gallu niweidio eu hiechyd meddwl. Mae plant yn cael eu cadw y tu mewn 'felly maen nhw'n ddiogel' (fel yr esboniodd un tad i mi wrth gatiau'r ysgol) ond mae canfyddiad rhieni a realiti yn aml yn bell ar wahân. Mae'r risgiau yn fwy y tu mewn nag allan. Roedd angen annog fy merch i fynd y tu allan ac unwaith yr oedd hi yno, roedd angen caniatâd arni i grwydro a darganfod. Roeddwn i, fel rhiant, angen help i ddysgu sut i'w hannog i wneud yr hyn fyddai, ar gyfer cenhedlaeth fy rhieni, wedi bod yn awtomatig trwy angenrheidrwydd.

Rwyf wedi croniclo ein hanturiaethau ar hyd y ffordd ar Instagram a Facebook (Trails, bales and snails) ac rwyf hefyd wedi bod yn ysgrifennu blog gyda'r nod o greu rhai adnoddau hygrych i helpu teuluoedd eraill. Mae manteision chwarae awyr agored yn cael eu dogfennu'n dda a'u hyrwyddo'n dda gan lawer o asiantaethau a llywodraethau ond gallant gael eu colli'n hawdd gan swm yr wybodaeth arall y mae'n rhaid i rieni mewn anhawster ariannol ei thrafod.

Mae dros 270 o heriau bellach wedi'u cwblhau ac mae'r mwyafrif helaeth wedi costio dim i ni ei gwneud ac maent wedi bod yn hawdd eu cyrraedd yn ein hardal leol. Rydym wedi dringo coed, rhedeg ar ôl ieir bach yr haf / pili-palod yw, gwneud cadwyni llygad (daisy chains) y dydd, rhoi cynnig ar chwibanu glaswellt, rasio malwod, bod yn dditectifs natur, dysgu dod o hyd i ffyrdd ac wedi mynd ar goll sawl gwaith ymhlith llawer o bethau eraill. Rydym wedi dechrau sgysiau a dysgu gan ein teulu a'n ffrindiau ac mae wedi teimlo fel antur iach fawr. Ein darganfyddiad mwyaf? Mai'r adnodd gorau yw'r lonydd a'r tir heb ei hawlio o gwmpas y lle'r ydym yn byw, a lle mae cymaint o bobl yng Nghymru yn byw, nad oes unrhyw un yn poeni gormod amdanynt. Yno, gallwch hel pethau a thorri pethau a dod o hyd i bryfed rhyfedd a threulio amser gyda ffrindiau a dringo coed ac adeiladu ffeuadau (dens) a darganfod fel y mynnwch. Adnodd gwych ac am ddim i unrhyw blentyn sy'n mynd allan i archwilio'r byd.

Fy nod yw creu rhagor o adnoddau rhieni ar-lein o amgylch y pwnc hwn ac rwy'n awyddus i gydweithio wrth ledaenu'r sgwrs hon.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <https://trailsbalesandsnails.co.uk/> neu drwy e-bostio lisawellsturner@gmail.com



Bwyd a Hwyl: Degawd o wahaniaeth yng Nghymru

Sut mae rhaglen gwyliau'r haf yn llunio dyfodol disglair i blant yng Nghymru

**Alexandra Gdula,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Pan gododd haul yr haf dros Gymru yn 2025, roedd yn disgleirio ar garreg filltir nodedig: degfed pen-blwydd Bwyd a Hwyl, menter drawsnewidiol sydd wedi chwyldroi gwyliau ysgol i filoedd o blant. Dechreuodd fel prosiect peilot bychan yng Nghaerdydd yn 2015 ac erbyn hyn mae wedi tyfu'n fudiad cenedlaethol, gyda phob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru yn cymryd rhan ac wedi darparu dros 833,500 o leoedd ers y cychwyn. Ers haf 2019, mae'r rhaglen wedi'i hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhaglen hon, sy'n seiliedig ar addysg, yn cael ei chynnal mewn ysgolion cynnal cymwys am o leiaf 12 diwrnod dros gyfnod o 3 wythnos, lle mae plant yn cael eu trochi mewn amgylchedd llawn amrywiaeth a chyffro. Yn ogystal â brecwast a chinio maethlon, mae plant yn cael amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau a chyfleoedd ymarferol, gan sicrhau nad yw'r haf yn saib mewn dysgu ond yn gyfle anffurfiol i gyfoethogi a ysbrydoli. Mae manteision economaidd hefyd i'r rhaglen, gyda llu o gyfleoedd cyflogaeth i staff

a rhwydweithiau cymorth ehangach, yn ogystal â darparu cyfleoedd gwirfoddoli.

Y gyfrinach y tu ôl i lwyddiant Bwyd a Hwyl yw partneriaeth. Mae cydweithio amlasiantaethol yn dod ag addysgwyr, awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd, partneriaid lleol a chenedlaethol a grwpiau cymunedol ynghyd, pob un yn cyfrannu eu harbenigedd ac adnoddau unigryw. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cefnogi ysgolion i greu cynlluniau lle mae dysgu anffurfiol yn ffynnu, gyda'r nod bod pob plentyn yn teimlo'n groesawgar ac wedi'i ysbrydoli.

Gan ganolbwyntio ar ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, mae'r rhaglen yn ceisio lleddfu effeithiau tlodi ar blant a theuluoedd sy'n cymryd rhan. Datblygwyd pum maes canlyniad allweddol gan ganolbwyntio ar faterion sy'n effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd fwyaf mewn angen. Y rhain yw: iechyd meddwl a lles gwell, ymgysylltiad ysgol a chyrhaeddiad addysgol, dyheadau gwell, gweithgarwch corfforol

gwell, a gwell ymddygiad dietegol – oll yn grymuso plant i wneud newidiadau cadarnhaol a pharhaol yn eu bywydau.

Elfen graidd yw'r addysg faeth sy'n cael ei darparu i blant gan ddefnyddio fframwaith Sgiliau Maeth am Oes. Yn aml, mae rhieni'n rhannu bod eu plant yn dod â'u gwybodaeth newydd adref, gan egluro'n frwdfrydig, er enghraifft, faint o siwgr sydd mewn bwydydd bob dydd.

Mae effaith Bwyd a Hwyl yn ymestyn y tu hwnt i giatiau'r ysgol. Mae ysgolion yn adrodd yn gyson am effeithiau cadarnhaol megis helpu disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi yn barod i ddysgu ac yn frwdfrydig. Yn ogystal, mae manteision eraill yn cynnwys lleihau diflastod ac unigedd, gwella cysylltiadau gyda chyfoedion a'r gymuned ysgol, a chynnal strwythur a threfn.

Ysgrifennodd un Pennaeth:

"Trwy gadw plant yn brysur mewn gweithgareddau strwythuredig, mae'r rhaglen hefyd yn helpu i atal y dirywiad dysgu dros yr haf, gan sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd ym mis Medi yn barod ac yn frwdfrydig."

Dywedodd un rhiant:

"Mae wedi bod yn dair wythnos o hwyl ddi-stop. Mwynhaodd fy mab bob munud ac mae'n edrych ymlaen at fynd! Bu amrywiaeth o weithgareddau o chwaraeon, cymorth cyntaf, i gwrdd ag anifeiliaid. Hyd yn oed dysgu addysgol heb iddynt sylweddoli, sy'n dangos pa mor wych yw hyn! Mae'n dod adref yn dweud wrthym am ei ddiwrnod, pa fwydydd newydd mae wedi rhoi cynnig arnynt, pa rai mae'n eu hoffi, pa rai nad yw'n eu hoffi. Bwyd a Hwyl yw union beth mae'n ei ddweud! Gobeithio y bydd yn parhau."

Gwahoddir teuluoedd i mewn bob wythnos am bryd bwyd/gweithgaredd gyda'u plant, ac ysgrifennodd un plentyn:

"Rwy'n hoffi'r ffaith y gallwch ddod â'ch teulu i'r ysgol."

Yn ganolog i Bwyd a Hwyl mae'r plant cael eu hannog i rannu eu meddyliau ar waliau graffiti mewn lluniau neu eiriau, gan roi mewnwelediad gwirioneddol i'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae

themâu cyffredin yn cynnwys cyfeillgarwch newydd, gweithgareddau cyffrous, blasu bwydydd anghyfarwydd, a chreu atgofion haf i'w trysori.



Ysgrifennodd un plentyn:

"Rwy'n caru mwynhau hyn. Mae'n arbennig i mi oherwydd mai hon yw'r ysgol orau erioed yn fy nghalon. Byddaf yn caru hyn lawer gwaith. Bydd bob amser yn fy nghof am byth ac yn dragwyddol."

Ysgrifennodd un arall:

"Rwy'n mwynhau Bwyd a Hwyl oherwydd bod pobl yn garedig â mi ac yn fy mharchu."

Wrth ddechrau ar ei ail ddegawd, mae Bwyd a Hwyl yn parhau i gyd-fynd â pholisiau allweddol megis: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Strategaeth Tlodi Plant i Gymru – gan sicrhau bod gan bob plentyn, beth bynnag eu hamgylchiadau, y cyfle i ffynnu.

Wrth i un haf ddod i ben ac un arall ddechrau, mae effaith Bwyd a Hwyl yn parhau – mewn plant iachach, cymunedau cryfach, a dyfodol mwy disglair ledled Cymru.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: alexandra.gdula@wlga.gov.uk



Camu 'Mlaen – Effaith rhaglenni ehangu mynediad o ran mynd i'r afael â thlodi rhwng cenedlaethau

Rebecca Kirkby, Dr Poppy Hodgkinson a Dr Anna Váradi
Tîm Ehangu Cyfranogiad, Prifysgol Caerdydd

Camu 'Mlaen yw rhaglen flaenllaw Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ehangu Cyfranogiad. Bob blwyddyn, mae'r rhaglen yn rhoi cipolwg ar fywyd yn y brifysgol i 300 o ddysgwyr Blwyddyn 12 o gefndiroedd difreintiedig drwy chwe wythnos o ddosbarthiadau meistr academiaidd neu ysgol haf breswyl.

Mae gan Addysg Uwch y potensial i dorri cylchoedd o dlodi rhwng cenedlaethau; dangosodd dadansoddiad diweddar o ddata'r llywodraeth bod graddedigion yn ennill tua 30% yn fwy na phobl nad ydynt yn raddedigion a allai fod wedi mynd i'r brifysgol.¹ Mae Camu 'Mlaen yn cefnogi disgyblion Blwyddyn 12 o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai yr effeithir arnynt gan dlodi i fagu hyder wrth wneud cais i'r brifysgol a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu yno. Roedd gan 41% o garfan 2025 y rhaglen hawl i gael prydau ysgol am ddim, dangosydd dibynadwy o dlodi plant,² ac roedd 72% o godau post yng nghwintilau isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Mae rhaglenni fel Camu 'Mlaen yn angenrheidiol i gefnogi dysgwyr o'r demograffeg hyn. Mae data mynediad diweddar UCAS yn dangos mai dim ond 18.5% o bobl ifanc 18 oed yng nghwintil isaf MALIC a dderbyniwyd i'r brifysgol, o'i gymharu â 44.9% o'u cyfoedion yn y cwintil uchaf.³

Yn 2025, cyflwynodd Camu 'Mlaen raglen dosbarth meistr academiaidd chwe wythnos. Ymunodd pobl ifanc o dde Cymru â ni ar gampws Prifysgol Caerdydd i gael teimlad o'r amgylchedd dysgu a meithrin hyder academiaidd yn y pwnc o'u dewis. Gallai dysgwyr ddewis o wyth maes pwnc gwahanol, gan gynnwys Meddygaeth, Deintyddiaeth, y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a'r Dyniaethau. Arweiniwyd dosbarthiadau meistr gan

diwtoriaid PhD Prifysgol Caerdydd a'u hwyluso gan lysgenhadon myfyrwyr, gan ganiatáu i'r cyfranogwyr ryngweithio â myfyrwyr presennol y brifysgol. Ar ôl y rhaglen, adroddodd y dysgwyr fwy o deimladau o berthyn mewn cyd-destun academiaidd a chymdeithasol yn y brifysgol ac roedd cynnydd hefyd yng ngwybodaeth y dysgwyr o'r hyn y gallan nhw ei ddisgwyl o radd prifysgol.

Yn dilyn eu hymgysylltiad â'r dosbarthiadau meistr, mae'r cyfranogwyr yn derbyn cefnogaeth go iawn i lywio'r broses ymgeisio a'r cyfnod pontio i'r brifysgol. Mae pob dysgwr sy'n cwblhau'r rhaglen yn gymwys i gael eu [derbyn ar sail cyd-destun](#)⁴ ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig gradd wedi'i addasu, neu gyfweiliad wedi'i warantu ar gyfer pynciau fel Meddygaeth, Deintyddiaeth, a'r Gwyddorau Gofal Iechyd. Gall y rhai sy'n gobeithio ymuno â'r meysydd cystadleuol hyn fynd i sesiynau paratoi ar gyfer cyfweiliad hefyd.

Mae Camu 'Mlaen yn cefnogi cyn-fyfyrwyr y rhaglen a'u rhieni neu warcheidwaid drwy weminarau gwybodaeth ac arweiniad, sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer grwpiau Ehangu Cyfranogiad, ac sy'n cwmpasu themâu megis cyllid myfyrwyr a llety prifysgol. Mae'r gefnogaeth hon yn arbennig o bwysig gan fod 74% o garfan Camu 'Mlaen 2025 o'r genhedlaeth gyntaf yn eu teulu i fynd i'r brifysgol ac mae'n bosibl y bydden nhw fel arall yn mynd drwy'r prosesau hyn gyda llai o fynediad at gyngor na'u cyfoedion.

Gan gydnabod rôl daearyddiaeth yng nghyfleoedd a dyheadau pobl ifanc, recriwtiodd Camu 'Mlaen gyfranogwyr o cyn belled â Sir y Fflint a Sir Ddinbych i'w hysgol haf breswyl, ac ymrwymodd i dalu am eu costau teithio rhwystredig i Brifysgol Caerdydd ac oddi yno. Wrth wneud hynny, rhoddodd Camu 'Mlaen fynediad i unig brifysgol



Cafodd Camu 'Mlaen effaith fawr arna i gan iddo roi mwy o hyder i mi wneud cais i'r brifysgol. Fe wnaeth y gefnogaeth a gefais fy helpu i lunio fy nghais UCAS ac ysgrifennu fy natganiad personol, a gwnaeth i mi deimlo'n fwy hyderus fy mod yn gallu mentro i fyd addysg uwch. Roedd yr ysgol haf yn uchafbwynt i mi gan fy mod wedi gallu siarad â rhywun oedd eisoes yn astudio'r cwrs a ddewisais, i ddysgu rhagor amdano. Roedd yr wybodaeth a rannodd hi'n ddefnyddiol iawn.

Cyfranogwr Camu 'Mlaen 2023
Myfyriwr presennol Prifysgol Caerdydd

Grŵp Russell Cymru ar gyfer y rhai a allai fod fel arall wedi methu ag ymweld cyn gwneud eu penderfyniadau o ran prifysgol. Yn ystod yr ysgol haf, fe wnaeth y dysgwyr aros yn un o letyau'r brifysgol, cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddarlithoedd blasu, a chwrdd â chyfoedion â phrofiadau a dyheadau tebyg o ran Addysg Uwch.

Rhwng 2020 a 2024, gwnaeth 76% o gyn-fyfyrrwyr Camu 'Mlaen gais i Brifysgol Caerdydd, a rhoddwyd cynnig i dri chwarter ohonyn nhw astudio.

Wrth i dlodi plant yn y DU barhau i gynyddu, mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud o hyd ar draws pob sector i fynd i'r afael â hyn.⁵ Mae sicrhau bod prifysgolion yn lle lle mae pawb yn teimlo y gallan nhw ffynnu a pherthyn yn rhan hanfodol o'r gwaith hwn. Bydd dosbarthiadau meistr Camu 'Mlaen yn dychwelyd ym mis Chwefror 2026 ac edrychwn ymlaen at groesawu carfan newydd o ddysgwyr i ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ym Mhrifysgol Caerdydd.

Os hoffech chi ddysgu mwy am ein gwaith neu eich bod yn adnabod unrhyw bobl ifanc a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais am ddosbarthiadau meistr Camu 'Mlaen 2026, gallwch chi [danysgrifio](#) i'n rhestr bostio neu e-bostio outreach@caerdydd.ac.uk. Gallwch hefyd ddilyn ein gwaith ar [LinkedIn](#).

Cyfeiriadau

1. Dadansoddiad Universities UK o ddata'r llywodraeth sy'n archwilio hynt graddedigion [ar gael yn [Hynt Graddedigion: Yr hyn mae'r data diweddaraf yn ei ddatgelu am gyflogaeth, cyflog ac ansawdd swyddi](#)]
2. Ymddiriedolaeth Sutton; Mesur Anfantais [ar gael yn: <https://www.suttontrust.com/our-research/measuring-disadvantage-higher-education-polar-fsm/#:~:text=The%20number%20of%20years%20a%20child%20has%20been,the%20best%20indicator%20for%20use%20in%20contextual%20admissions>]
3. Data diwedd cylch UCAS [ar gael yn [Adnoddau data diwedd cylch Israddedig UCAS 2024](#) | UCAS]
4. Gwybodaeth am Dderbyniadau Cyd-destunol gan Brifysgol Caerdydd [ar gael yn [Derbyniadau cyd-destunol - Astudio - Prifysgol Caerdydd](#)]
5. Turning the tide: What it will take to reduce child poverty in the UK, Sefydliad Resolution [ar gael yn: <https://www.resolutionfoundation.org/publications/turning-the-tide/>]



Anweledig yn y Niferoedd: Tlodi cudd plant yng Nghymru sy'n chwilio am noddfa

Sabiha Azad, Cyngor Ffoaduriaid Cymru

“Peidiwch â symud fi i ysgol arall eto.”

Mae merch saith oed yng Nghymru eisoes wedi newid ysgol dair gwaith mewn wyth mis, pob tro oherwydd ansefydlogrwydd tai. Bob tro, mae hi'n colli ffrindiau, mae hi'n colli darn o ddiogelwch.

Dyma wyneb cudd tlodi plant yng Nghymru. I blant sy'n ceisio lloches - y rhai sy'n llywio'r system loches - mae tlodi yn eang, ac mae'n anweledig. Wedi'u gwahardd rhag gweithio, wedi'u torri i ffwrdd o arian cyhoeddus, ac yn byw mewn limbo wrth aros dros flwyddyn am benderfyniad gan y Swyddfa Gartref, mae'r teuluoedd hyn ymhlith y tlotaf yn y wlad. Ac eto mae plant sy'n ceisio lloches wedi'u heithrio'n llwyr o ystadegau tlodi plant Llywodraeth Cymru.

Yr argyfwng cudd

Pan nad yw plant yn cael eu cyfrif, nid ydynt yn cael eu gweld. A phan nad ydynt yn cael eu gweld, nid ydynt yn cael eu cefnogi.

Mae teuluoedd sy'n chwilio am loches yn dioddef rhai o'r amodau byw mwyaf llym yng Nghymru. Mae polisïau mewnfudo megis **Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)** yn golygu bod llawer wedi'u dal mewn tlodi, mae llawer yn goroesi ar ond £49.18 yr wythnos tra eu bod nhw'n aros, yn aml am fwy na flwyddyn, am benderfyniad gan y Swyddfa Gartref.

Mae hyn yn eu rhoi ymhlith yr aelwydydd incwm isaf yn y wlad.

Mae canlyniadau difrifol i'r gwaharddiad hwn. Heb gydnabyddiaeth swyddogol, mae cyllidwyr yn aml yn troi eu cefnau, gan nodi diffyg data. Y canlyniad yw cylch cynyddol o dlodi ac unigedd i deuluoedd sydd eisoes wedi'u gwrthio i'r ymylon.

Ond nid yw tlodi yn ymwneud ag incwm yn unig, mae'n gwadu hawliau sylfaenol. Dylai pob plentyn gael tŷ diogel, bwyd maethlon, gofal iechyd, addysg a'r gallu i gymryd rhan mewn cymdeithas. I deuluoedd sy'n chwilio am loches, mae'r hawliau hyn allan o gyrraedd.

Plant sy'n talu'r pris uchaf. Maen nhw'n profi newyn, ansefydlogrwydd ac allgáu. Yng Nghymru heddiw, mae rhai plant sy'n chwilio am loches yn byw mewn cartrefi lle mae gobaith wedi'i ddogni mor dynn â bwyd.

Nid ystadegyn yn unig yw hwn, mae'n realiti bob dydd

Y tu ôl i'r ystadegau mae straeon am aberthu a goroesi. Mae ein Prosiect Chwarae yn cynnig lloches fach i blant, gan roi lle iddyn nhw fod yn blant.

Disgrifiodd un fam sut wnaeth yr ansefydlogrwydd effeithio ar ei merch:

“Bob tro dw i’n dod i adnabod rhywun, maen nhw’n fy ngadael i,” meddai’r plentyn saith oed, ar ôl cael ei orfodi i newid ysgol dair gwaith mewn llai na blwyddyn. Gyda phob newid, roedd gwisg newydd na allai’r teulu eu fforddio, gan roi mwy o straen ar eu hincwm cyfyngedig.

Meddai mam arall i ni: *“Weithiau dydw i ddim yn bwyta. Rydw i ond yn bwyta’r pethau mae fy mhlant yn eu gadae. Nhw yw fy mlaenoriaeth.”*

Nid yw’r straeon hyn yn unigryw, maent yn adlewyrchu methiant systemig ehangach i gefnogi teuluoedd sy’n ceisio lloches. Os ydym o ddifrif am fynd i’r afael â thlodi plant yng Nghymru, rhaid i ni ddechrau trwy gydnabod pob plentyn, gan gynnwys y rhai sy’n ceisio lloches. Mae eu bywydau, eu dyfodol, a’u lleisiau’n bwysig. A hyd nes iddynt gael eu cyfrif, byddant yn parhau i gael eu gadael ar ôl.

Beth ydyn ni’n ei wneud i’w ddatrys?

Diolch i gyllid gan Grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau Llywodraeth Cymru, mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn arwain menter pwerus newydd gyda Grŵp Cymorth Ceiswyr Lloches Bae Abertawe (SASS), y Sefydliad Mamau a Phlant Bach (MTF), ac Alltudion ar Waith (DPIA). Gyda’n gilydd, rydym yn tynnu sylw at brofiadau bywyd teuluoedd

sy’n chwilio am loches, yn enwedig y bobl sy’n cael eu heffeithio arnynt gan Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF), polisi sy’n gwadu mynediad at wasanaethau hanfodol ac yn gadael plant yn arbennig o agored i niwed.

Sut ydyn ni’n ysgogi newid?

- Gwranddo: drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws, rydym yn cofnodi straeon go iawn am galedi, gwydnwch ac allgáu
- Mapio anghenion: rydym yn nodi ble mae teuluoedd, pa heriau maen nhw’n eu hwynebu, a bylchau yn y gefnogaeth
- Creu offer: cyd-ddylunio pecyn cymorth digidol gyda theuluoedd a gweithwyr rheng flaen i rannu gwybodaeth hanfodol am hawliau a gwasanaethau
- Hyfforddi staff: galluogi timau Awdurdodau Lleol yng Nghaerdydd ac Abertawe i ymateb i NRPF gydag empathi a dealltwriaeth
- Eirioli dros newid: rhannu mewnwelediadau gyda chyllidwyr a llunwyr polisi i hyrwyddo strategaethau cymorth cynhwysol sy’n canolbwyntio ar blant

Mae Cymru wedi gosod uchelgeisiau beiddgar i fynd i’r afael â thlodi plant. Ni ellir gwireddu’r uchelgais honno tra bod rhai o’r plant tlotaf yn parhau i fod yn anweledig yn y data. Cyfrif plant sy’n ceisio lloches yw’r peth cywir i’w wneud, a’r peth call i’w wneud. Oherwydd pan gaiff pob plentyn ei gefnogi, mae Cymru gyfan yn gryfach.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, anfonwch e-bost at Sabiha Azad, Arweinydd Clymblaid Noddfa Cymru: sabiha@wrc.wales





Meithrin Natur – mynediad i'r amgylchedd naturiol sy'n newid bywydau go iawn

Dr Simone Lowthe Thomas
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Natur i bob plentyn – mae’n hanfodol i’w lles, iechyd a hapusrwydd yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Dyna pam y mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi lansio [Meithrin Natur](#) - rhaglen newydd gwerth £10 miliwn i feithrin cysylltiadau ystyrlon â’r amgylchedd naturiol i fabanod a phlant ifanc yng Ngymru. Mae [Dr Simone Lowthe Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Cymru](#), yn rhannu pam bod y rhaglen ariannu hon yn bwysig a sut mae’n ceisio creu effaith parhaol.

Yma yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym yn credu fod helpu plant i feithrin cysylltiad cryf gyda’u hamgylchedd naturiol, ar gamau cynharaf eu bywydau, yn hanfodol i’w galluogi nhw i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym wedi lansio Meithrin Natur mewn ymateb i gorff cynyddol o dystiolaeth – gan gynnwys yr ymchwil hwn gan yr [Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt](#) – sy’n dangos fod treulio amser mewn amgylcheddau naturiol yn cynyddu lles personol ac iechyd plant dros amser.

Fodd bynnag, mae rhwystrau megis hygyrchedd a lleoliad yn gallu ei gwneud yn anodd i blant ifanc a’u rhieni gael mynediad i lefydd naturiol. Rydym yn gwybod fod dechrau plentyn mewn bywyd yn gallu effeithio eu mynediad at fyd natur yn fawr iawn, gyda’r rhai sy’n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethau yn wynebu heriau mwy cymhleth a hirsefydlog nac eraill.

Mae ein rhaglen newydd yn cefnogi prosiectau partneriaeth sy’n dod â gweithgareddau blynyddoedd cynnar i fannau gwyrdd – parciau, gwlypdiroedd, gerddi, caeau chwarae, a mwy. Bydd y partneriaethau hyn yn dod a sefydliadau blynyddoedd cynnar ynghyd ag arbenigwyr amgylcheddol, ac yn hanfodol, yn cynnwys plant a theuluoedd wrth lywio’r prosiectau er mwyn adlewyrchu anghenion lleol.

Pwy rydyn ni’n eu hariannu

Rydym wedi clustnodi £10 miliwn o arian grant a fydd yn newid bywydau dros saith mlynedd trwy Meithrin Natur. Rydym eisiau cynigion partneriaeth gan sefydliadau a phrosiectau a allai weithio gyda’i gilydd ar fentrau cymunedol sy’n agor y drws ar yr awyr agored i blant. Rydym am ariannu prosiectau arloesol a fydd yn cyd-gynhyrchu eu gwaith gyda’r plant a’r teuluoedd ar bob cam o’r ffordd.

Mae’r rhaglen ariannu ar agor i ystod eang o brosiectau partneriaeth, gan gynnwys y rhai sy’n darparu gweithgareddau blynyddoedd cynnar mewn parciau, gwlypdiroedd, afonydd, gerddi cyhoeddus, caeau chwarae, rhandiroedd, a gwarchodfeydd natur, yn ogystal â’r rhai sy’n gwasanaethu cymunedau mewn ardaloedd sy’n arbennig o ddifreintiedig.

Rydym yn diffinio prosiectau partneriaeth fel y rhai hynny sy’n cyfuno sefydliadau blynyddoedd cynnar â’r rhai sydd â phrofiad a gwybodaeth am yr amgylchedd. Bydd angen ystyried mewnbyn gan blant lleol a’u teuluoedd hefyd, i sicrhau fod cynlluniau yn gynhwysol ac yn bodloni anghenion y gymuned leol.

Astudiaeth achos: Babi Actif

Rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau amgylcheddol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf trwy [Pawb ai Le](#). Yn ddiweddar, fe wnaethom ddyfarnu grant o dros £300,000 i Eryri-Bywiol ar gyfer prosiect [Babi Actif](#) yng ngogledd orllewin Cymru.

Mae’r grant wedi eu galluogi nhw i gynnal gweithgareddau sy’n caniatáu i ofalwyr a babanod ymgolli yn yr awyr agored fel ffordd o wella eu hiechyd corfforol ac iechyd meddyliol. Mae hyn yn cynnwys ffitrwydd bygi, chwarae coedwig i fabanod, symud yn yr awyr agored, a theithiau cerdded babi a sling. Maen nhw’n darparu pymtheg gweithgaredd yr wythnos trwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle gwerthfawr i deuluoedd gael mynediad at fyd natur gyda’u babanod.

*Mae prosiectau fel yr un hwn yn dangos pwysigrwydd rhoi mynediad i fyd natur i blant ifanc, gwaith y gobeithiwn y gall **Meithrin Natur** adeiladu arno mewn ffyrdd newydd a diddorol.*

Ymgeisiwch heddiw

Os oes gennych syniad am brosiect partneriaeth sy’n dod ag arbenigedd mewn babanod a phlant ifanc ynghyd â’r manteision o dreulio rhagor o amser yn yr awyr agored, yna ewch i [dudalen rhaglen Meithrin Natur](#) i gysylltu ag ymgeisio am arian.





Mae angen mwy o arian, gwasanaethau a phŵer ar blant, teuluoedd a chymunedau i ddileu tlodi plant yng Nghymru

Melanie Simmonds, Achub y Plant Cymru

Mae'n warth bod un o bob tri phlentyn yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod bron i 200,000 o blant yn cael eu methu, gyda'r ffigurau'n debygol o gynyddu dros y blynnyddoedd nesaf.

Ac yn cuddio y tu ôl i bob ystadegyn mae yna blant go iawn sy'n tyfu i fyny heb fwyd, gwres, teganau, hyd yn oed gwely, a straeon rif y gwlith o deuluoedd sy'n cael eu gorfodi i wneud dewisiadau amhosibl. Mae'r euogrwydd a'r straen y mae rhieni'n eu teimlo pan fydd eu plant yn colli partion pen-blwydd neu wynebu Nadolig heb anrhegion neu hyd yn oed ddigon o fwyd, yn dorcalonnus.

Mae gweithredu ar dlodi plant yn fuddsoddiad mewn dyfodol disgleiriach i Gymru. Bydd y penderfyniadau a wnawn heddiw yn llunio cyfleoedd a lles y genhedlaeth nesaf. Mae pob plentyn yng Nghymru yn haeddu y dechreuad gorau mewn bywyd a'r cyfle i ffynnu, waeth ble maen nhw'n byw neu faint o arian sydd gan eu teulu.

Mae ein strategaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf, **Ymlaen**, yn ymwneud â symud arian, gwasanaethau a phŵer i ddwylo plant, teuluoedd a chymunedau i'n galluogi i gyflawni ein nod o ddod â thlodi plant i ben yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i:

- Sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad at yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Mae hyn yn cynnwys galw ar Lywodraeth y DU i ddileu'r terfyn budd-dal o ddau blentyn a chyflwyno clo plant ar nawdd cymdeithasol
- Galluogi ymarferwyr i weithio gyda'i gilydd fel bod plant a theuluoedd yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt. Mae cydlynu gwell ar lefelau lleol a chenedlaethol yn hanfodol
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan leisiau a phrofiadau'r rhai sy'n byw gyda thlodi bob dydd. Mae'n rhaid i blant a theuluoedd gymryd rhan wirioneddol yn y broses o lunio'r polisiau sy'n effeithio arnynt

Nid yw hyn yn ymwneud â pholisi yn unig - mae'n ymwneud ag ymarfer. Ledled Cymru, rydym wedi gweld sut y gall symud pŵer i gymunedau arwain at newid go iawn. O gymuned Betws yng Nghasnewydd i Drelái a Chaerau yng Nghaerdydd, rydym wedi dysgu y gall rhoi cyllid ac arian yn lleol fod yn sbardun i drawsnewid. Mae gerddi cymunedol Dan y Coed yn Nhrelái a Chaerau yn enghraifft wirioneddol o sut mae cefnogi partneriaid lleol i gymryd perchnogaeth a dod o hyd i ddatrysiadau sy'n gweithio iddyn nhw, yn helpu plant i dyfu, blodeuo a ffynnu.

Yn ein strategaeth newydd, byddwn hefyd yn dyfnhau ein ffocws ar gyfranogiad, gan weithio gyda phobl ifanc i gyd-ddylunio ymchwil a llunio eu dyfodol hwy a'r ffordd y byddwn ni yn gweithredu er eu mwyn yn y dyfodol. Datgelodd ein prosiect ymchwil cyfranogol *Pŵer y Llais* ddyheadau a photensial plant sy'n byw mewn tlodi. Siaradodd plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru am y pwysau y mae tlodi yn ei roi ar y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw ac ar eu hiechyd meddwl. Ond fe wnaethant hefyd sôn am bŵer cymuned a sut y gall modelau rôl, rhwydweithiau cymorth, a phwysigrwydd cael eich clywed fod mor bwysig. Fel y crynhodd un o'r ymchwilwyr ifanc:

“Rydw i wedi dysgu nad yw pawb yn teimlo eu bod nhw'n ffitio i mewn, dydyn nhw ddim yn gallu gwneud ffrindiau, ac maen nhw'n colli allan ar bethau oherwydd ble maen nhw'n byw neu

oherwydd nad oes gan eu rhieni ddigon o arian. Mae'n bwysig bod gwleidyddion a phobl sy'n gallu gwneud pethau'n well i blant sy'n byw mewn tlodi yn gwrandao ar ein barn ni.”

Wrth i ni fel elusen baratoi i gymryd camau beiddgar 'ymlaen', rydym yn parhau i fod wedi ein hymrwymo i ddysgu, addasu, a bod yn onest ac yn agored ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim.


I adleisio geiriau ein sylfaenydd, Eglantyne Jebb: “*Yn aml, dywedir wrth Achub y Plant fod ei hamcanion yn amhosibl. Mae'n amhosibl os y gwrthodwn ni geisio gwneud yr amhosibl yn bosibl.*”

Nid yw diddymu tlodi plant yng Nghymru yn hawdd. Ond gyda'n gilydd, mae'n bosibl.

Os hoffech ddysgu mwy am ein strategaeth, cysylltwch â: walesinfo@savethechildren.org.uk



**Save the
Children**
Achub y Plant



Mae'r 'tlodi o brofiad' yn niweidio datblygiad ein plant

Matt Lewis, Gweithredu dros Blant

Mae tlodi ariannol yn ddi-os yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth a llai o gyfleoedd bywyd i blant, ond i ni sy'n gweithio yn gwasanaeth Maethu Gweithredu Dros Blant yma yng Nghymru, mae tlodi profiad plant a diffyg meithrin yn gyfwerth o ran effaith. Mae hyn yn gadael plant mewn cyflwr datblygiadol sy'n peri gofid dwys.

Mae'r atgyfeiriadau dyddiol ar gyfer plant sydd angen teuluoedd maeth yn dangos bod datblygiad plant yn fwy o dan fygythiad nag erioed o'r blaen. Yn sicr, ers pandemig Covid a'i effaith sylweddol, mae dirywiad amlwg wedi bod yn y profiadau byw o fewn cymunedau a theuluoedd plant — etifeddiaeth barhaus y cyfnod eithriadol hwnnw.

Mae gormod o blant heb unrhyw brofiad o ofal sylfaenol nac o berthnasoedd diogel ag oedolion. Mae llawer yn dangos symptomau PTSD cymhleth ac wedi profi ACEs lluosog, gan arwain at orwiliad a gorbryder. Mae rhai wedi dioddef newyn, heb wybod sut i chwarae nac i ryngweithio'n llwyddiannus â chyfoedion. Mae'r rhestr yn faith.

Mae hyn i gyd yn golygu bod gormod o blant yng Nghymru wedi colli'r sylfeini datblygiadol hanfodol ar gyfer plentyndod iach, gan arwain at fregusrwydd hirdymor yn oedolion ac anawsterau dwys wrth ffurfio perthnasoedd iach ar draws cymdeithas — gan gynnwys magu teuluoedd.

Mae hyn yn gylch o 'dlodi datblygiadol' sy'n arwain at anghenion cynyddol rhwng cenedlaethau, ac yn gallu esbonio'r cynnydd yn nifer y plant yng Nghymru sy'n cael eu tynnu oddi wrth eu teuluoedd geni. Yn ôl Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2024, roedd 7,918 o blant yn cael eu 'gofalu amdanynt' gan Awdurdodau Lleol — cynnydd o 28.4% ers degawd yn ôl. Mae hyn yn rhagolwg digalon i blant yng Nghymru, gan ein bod ni i gyd yn gwybod mai 'atal yw'r gorau'.

Fodd bynnag, unwaith y bydd plentyn yn cael ei 'ofalu amdano', mae cyfle arall i wneud pethau'n iawn drwy fyw mewn teulu maeth. Mae ein rhieni maeth yn aml yn cyflwyno plant — efallai


am y tro cyntaf — i blentyndod y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol: gofal oedolion cariadus, cyson, llawn chwarae. Rydym yn rhyfeddu at eu hymrwymiad. Mae'r gwasanaeth maethu wedi dysgu dros y blynyddoedd bod ail-brofi plentyndod hapus a diogel yn hanfodol ar gyfer twf datblygiadol. Rydym wedi buddsoddi yn ein gofod Celf ein hunain, gan gynnig lle diogel a chreadigol i leihau effaith trawma a helpu plant i ffynnu.

I Gymru, mae buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal yn ein cymunedau yn hanfodol i gefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd geni ac i ffynnu drwy gydol eu plentyndod ac i mewn i oedolion. Mae meithrin rhieni yn ogystal â'r plant yn hanfodol drwy gefnogaeth hirdymor, hygyrch sy'n darparu sail ar gyfer diogelwch perthynol a thwf datblygiadol i'r system deuluol gyfan.

Os nad yw hynny'n bosibl, mae angen cefnogaeth arbenigol ar blant i wrthweithio effaith trawma, cynorthwyo twf datblygiadol ac eu galluogi i gael perthnasoedd cariadus, iach hirdymor lle gall atodiadau diogel ffurfio — gan mai'r profiad hwn, yn y pen draw, sy'n torri'r cylch o 'dlodi datblygiadol'.

I ddarganfod mwy am y gwaith hwn, anfonwch e-bost at Matt Lewis, Gwasanaeth Maethu Cymru, Gweithredu dros Blant:

Matthew.Lewis@actionforchildren.org.uk





Tlodi plant yng Nghymru - safbwynt o'r rheng flaen

Laura Tomsa, Barnardo's Cymru

“Dydw i erioed wedi gweld pethau mor wael â hyn. Mae rhieni’n aml yn gyndyn o siarad am ba mor ddrwg yw pethau oherwydd bod ganddyn nhw gywilydd nad ydyn nhw’n gallu bwydo na rhoi dillad am eu plant, na’u cadw’n gynnes. Dim ond pan fyddwn ni’n ymweld â’r cartref y byddwn ni’n deall pa mor anodd mae hi arny’n nhw.” Ymarferydd Barnardo’s Cymru

Mae tlodi plant yn parhau i daflu cysgod hir dros Gymru. Er gwaethaf ymdrechion dirifedi a chyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn 2024, mae 31% o blant yng Nghymru’n dal i fyw mewn tlodi, ffigur sydd wedi aros yn annerbyniol o uchel ers dros ddegawd.

Mae daearyddiaeth yn gwneud gwahaniaeth i brofiad pobl o dlodi, ond mae’n fater difrifol ym mhob cwr o Gymru. Mewn 94% o etholaethau Cymru, mae hyn yn effeithio ar o leiaf un plentyn o bob pedwar.

Yn Barnardo’s Cymru mae ein gwasanaethau’n gweithio’n uniongyrchol gyda’r teuluoedd sy’n cael eu taro galetaf gan yr anghydraddoldebau hyn. Rydyn ni’n cefnogi’r rheini sy’n byw gydag effaith ddyddiol a dinistriol tlodi: mwy o anghenion iechyd corfforol, dirywiad mewn iechyd meddwl a llesiant, a dewisiadau amhosibl rhwng hanfodion - fel gwresogi’r cartref neu fwydo’r teulu. Mae effeithiau tlodi ar blant yn ddwys ac yn eang, gan effeithio ar bron pob agwedd ar eu bywydau - eu hiechyd corfforol, eu datblygiad meddyliol, eu haddysg a’u cyfleoedd yn y dyfodol. Mae’n cael effaith ar unwaith ac mae’r effaith honno’n parhau, gan gyfyngu ar botensial plentyn ac atgyfnerthu cylchoedd o anghydraddoldeb cymdeithasol a all barhau am genedlaethau.

Drwy ein gwaith rheng flaen, rydym yn helpu teuluoedd i gael gafael ar grantiau a sicrhau bod anghenion sylfaenol plant yn cael eu diwallu - bwyd, dillad, cynhesrwydd, diogelwch. Ond mae’r galw

cynyddol am gymorth mewn argyfwng yn dangos pa mor ddwfn mae'r mater hwn wedi gwreiddio.

Ym mis Tachwedd 2024, lansiodd Barnardo's Gronfa Tlodi Plant i ymateb i anghenion brys. Roedd y gefnogaeth a roddwyd yn canolbwyntio ar yr hanfodion:

- Aeth 41% tuag at fwydo teuluoedd
- Talodd 29.6% am ddillad, gan gynnwys cotiau cynnes ar gyfer y gaeaf
- Helpodd gweddill yr arian deuluoedd i gael gafael ar offer sy'n gweithio, dodrefn hanfodol, mannau cynnes, ac mewn rhai achosion, cymorth gydag addysg a hyfforddiant

Gall y math hwn o gymorth leddfu pwysau tymor byr, ond nid yw'n ddigon. Ddylai teuluoedd yng Nghymru ddim gorfod dibynnu ar gyllid brys i ddiwallu eu hanghenion dynol sylfaenol.

Beth sydd angen ei newid

Os ydym o ddifrif ynghylch rhoi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i gyfres o newidiadau beiddgar ac ymarferol sy'n mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, nid y symptomau yn unig.

Yn gyntaf, rhaid inni fynd i'r afael â'r polisïau sy'n sbarduno tlodi fwyaf: y terfyn dau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau. Mae'r polisïau lles hyn ar gyfer y DU gyfan yn cyfyngu ar y cymorth ariannol sydd ar gael i deuluoedd â mwy na dau o blant, beth bynnag fo'u hangen. Y teuluoedd tlodaf sy'n cael eu taro galetaf ganddynt ac maent yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd mwy o faint. Gallai cael gwared ar y mesurau hyn ddod â hyd at hanner miliwn o blant allan o dlodi ledled y DU, a byddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i filoedd o blant yng Nghymru.

Yn ail, rhaid inni gydnabod bod yr ardal mae plentyn yn byw ynddi'n gwneud gwahaniaeth. Mewn ardaloedd gwledig, mae costau byw yn aml yn uwch, mae mynediad at wasanaethau yn gyfyngedig, ac mae opsiynau trafndiaeth gyhoeddus yn brin. Dyna pam mae Barnardo's Cymru yn cefnogi trafndiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc. Mae gormod o bobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn cael eu datgysylltu oddi

wrth addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dim ond am nad ydyn nhw'n gallu fforddio'r daith.

Mae hefyd angen i ni ymestyn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i bawb i gynnwys pob disgybl ysgol uwchradd. Dydy newyn ddim yn gorffen yn yr ysgol gynradd, ac ni ddylai unrhyw blentyn orfod dysgu ar stumog wag.

Ac er ein bod yn croesawu cynlluniau fel Bwndel Babi, sy'n rhoi eitemau babanod hanfodol i rieni newydd, rhaid iddo fod ar gael i bawb i sicrhau nad oes unrhyw deulu'n cael ei adael ar ôl oherwydd cod post neu incwm.

Yn fwy na dim, mae angen targedau uchelgeisiol, mesuradwy arnom i roi terfyn ar dlodi plant - targedau sy'n dryloyw, yn cael eu tracio, ac yn cael eu hadrodd arnynt yn rheolaidd. Hebddynt, mae'n anodd monitro cynnydd, a bydd teuluoedd yn dal i ddisgyn drwy'r craciau.

Rydyn ni wedi gweld gwytnwch teuluoedd, ymroddiad gweithwyr rheng flaen, a'r effaith y mae cymorth wedi'i dargedu yn ei gael. Ond allwn ni ddim parhau i ddibynnu ar atebion tymor byr nac ymatebion brys. Yr hyn sydd ei angen nawr yw gweithredoedd beiddgar a hirdymor, dan arweiniad y llywodraeth, gyda chefnogaeth y cymunedau, ac wedi'u llywio gan brofiadau'r rheini sy'n byw drwy hyn. Gyda'r buddsoddiad, yr arweinyddiaeth a'r atebolrwydd cywir, gallwn adeiladu Cymru lle nad oes unrhyw blentyn yn tyfu i fyny mewn tlodi, a lle mae pob plentyn yn cael cyfle i ffynnu.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am waith Barnardo's Cymru, anfonwch e-bost at: Laura.Tomsa@barnardos.org.uk



Gweithio gyda phlant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel ac ymgysylltu â nhw

Sian Bibey, Swyddog Hyfforddi Plant yng Nghymru



Fel sefydliad hawliau plant, mae Plant yng Nghymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc y cyfle i gymryd rhan, ni waeth beth fo'u cefndir. Rydym yn credu y dylai cyfleoedd i gymryd rhan fod yn hygyrch i bawb, ac mae hynny'n cynnwys y rheiny o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel.

Mae un o'r cyrsiau hyfforddi, sydd wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno gan Plant yng Nghymru fel rhan o'r ymrwymiad hwn, yn canolbwyntio ar gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel, yn benodol o ran sut i'w cynnwys yn y celfyddydau a diwylliant.

Mae ymchwil yn dangos bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn aml yn teimlo nad yw gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol "ar gyfer pobl fel nhw" (Hull, 2013; Atkinson a Mason, 2014; Cynulliad Gogledd Iwerddon, 2016; McAndrew a Widdop, 2021). Gall teimlo allan o le neu boeni am beidio â ffitio i mewn atal cyfranogiad (O'Brien ac Oakley, 2015). Yn aml, caiff y rhwystrau mewnol hyn eu hatgyfnerthu gan rai allanol, fel cost gweithgareddau, teithio neu leoliad llefydd.

Mae astudiaethau hefyd wedi canfod y gall lle mae plentyn yn byw ddylanwadu ar ei ymgysylltiad. Mae plant sy'n cael eu magu mewn ardaloedd mwy cefnog ddwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol y tu allan i'r ysgol, o'i gymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig (Mak a Fancourt, 2021). Yn yr un modd, mae plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu lai cyfoethog yn llai tebygol o ymweld ag amgueddfeydd ac orielau oherwydd lleoliad, anghydraddoldebau ariannu a'r amgylcheddau cymdeithasol sy'n amgylchynu'r mannau hyn (O'Brien ac Oakley, 2015).

Gyda hyn mewn golwg, mae ein hyfforddiant yn archwilio'r hyn y gall ymarferwyr a gwasanaethau ei wneud i annog ymgysylltiad a gwneud gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn fwy hygyrch i bawb. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar strategaethau ac enghreifftiau ymarferol sy'n helpu i gael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer cyfranogiad.

1. Cyd-greu

Gall ymgysylltu cymunedau mewn cyfranogiad a chyd-gynhyrchu drawsnewid sut mae pobl yn profi'r celfyddydau a diwylliant. Mae'n helpu i gynyddu ymgysylltiad, gwella ansawdd a chynrychiolaeth ac yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i gymunedau.

Dyma rai enghreifftiau:

- Cynnwys aelodau'r gymuned mewn byrddau rheoli a phaneli cymunedol i helpu i gomisiynu gweithgareddau a rhaglenni
- Cynnal ymgynghoriadau i sicrhau bod mentrau celfyddydau a diwylliant yn adlewyrchu buddiannau a hunaniaethau lleol

2. Cyfranogiad

Mae'n ymddangos bod cyfranogiad gweithredol mewn diwylliant a chelfyddydau yn cael ei ddylanwadu llai gan ddosbarth cymdeithasol neu statws (Reeves, 2015). Gall darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan ym mhob cam – o ddatblygu i gyflawni – ddenu cynulleidfaoedd mwy amrywiol a chynnig profiadau cyfoethog sy'n ennyn diddordeb parhaol.

Dyma rai enghreifftiau:

- Gwahodd aelodau'r gymuned i helpu i lunio neu gyflwyno gweithgareddau
- Annog cyfranogiad ymarferol i gryfhau cysylltiadau a hyder

3. Lleoliadau cymunedol

Mae hygyrchedd yn ymwneud â mwy na mynediad corfforol. Gall pellter, cost ac argaeledd i gyd effeithio ar a yw plant a phobl ifanc yn cymryd rhan. Gall dod â gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i fannau cymunedol lleol helpu i leihau rhwystrau a chynyddu teimladau o adnabyddiaeth a pherthyn.

4. Cyfleoedd i gymdeithasu

Mae'r cyfle i gymdeithasu yn gymhellant allweddol i lawer o blant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel (Parkinson et al., 2015). Gall meithrin cyfleoedd cymdeithasol wneud celfyddydau a diwylliant yn fwy deniadol a chynhwysol.

Dyma rai enghreifftiau:

- Mynychu perfformiadau byw neu ddangosiadau cymunedol o ffilmiau a sioeau teledu
- Cynnal digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol mewn lleoliadau lleol cyfarwydd lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus

5. Cyfathrebu ac allgymorth

Mae deall beth mae cymunedau ei eisiau a'i werthfawrogi yn helpu i greu cysylltiad mwy cadarnhaol â'r celfyddydau a diwylliant. Dylai cyfathrebu fod yn glir, yn lleol ac yn seiliedig ar ymddiriedaeth.

Dyma rai enghreifftiau:

- Defnyddio dulliau llafar, llysgenhadon cymunedol a phartneriaethau lleol i hyrwyddo gweithgareddau
- Meithrin cysylltiadau drwy fannau cymunedol i gasglu adborth a deall diddordebau
- Creu digwyddiadau o amgylch themâu cyffredinol, fel newid yn yr hinsawdd, sy'n taro tant gyda phobl o bob cefndir

Yn Plant yng Nghymru, rydym yn credu bod ymgysylltu plant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel mewn celfyddydau a diwylliant nid yn unig yn bosibl, ond yn hanfodol. Drwy ein hyfforddiant, rydym yn helpu ymarferwyr a sefydliadau i ddatblygu'r wybodaeth a'r hyder i chwalu rhwystrau, meithrin ymddiriedaeth, a chreu cyfleoedd sy'n teimlo'n wirioneddol gynhwysol.

Dylai celfyddydau a diwylliant fod i bawb – a chyda'r gefnogaeth gywir, gallant fod.

Dysgwch fwy am yr hyfforddiant hwn, a'n holl gysiau eraill, yma; [Hyfforddiant a Digwyddiadau I Plant yng Nghymru](#)





Prosiect Contact Cymru - Hawlio gyda Hyder

Katherine Wyke, Contact Cymru

Diolch i arian gan Lywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Fforwm Cymru Gyfan, mae elusen Contact Cymru bellach yn cynnig apwyntiadau un-i-un, sy'n gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim, i rieni sy'n ofalwyr yng Nghonwy a Gwynedd gyda chynghorwyr arbenigol – i gael help ymarferol a phersonol gyda budd-daliadau a chymorth ariannol.

Contact yw'r elusen yn y DU sy'n cefnogi teuluoedd sydd â phlant anabl a'r rhai ag anghenion ychwanegol. Yma, mae Katherine Wyke, Rheolwr Cymru Contact, yn egluro pam bod eu prosiect newydd, Hawlio gyda Hyder, yn dod ar adeg mor dyngedfennol.

Mae gwaith ymchwil diweddar gan Contact yn dangos bod 86% o deuluoedd sydd â phlant anabl yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd hawlio budd-daliadau. Mae'n ddychrynlyd bod 39% wedi dweud na allent gadw eu cartrefi'n ddigon cynnes i anghenion eu plentyn. Ar ben hynny, dywedodd 88% fod costau ychwanegol gofal yn achosi straen, pryder, neu straen ariannol.

Yn aml, mae teuluoedd yn wynebu costau byw anghymesur o uchel - o filiau tŷ a chludiant i offer arbenigol – mae hyn ar ben gorfod delio gydag incwm llai oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

Dod o hyd i ffordd drwy ddrysfa budd-daliadau

Er gwaethaf hyn, mae llawer yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl iddi. Yn aml, mae rhieni'n dweud bod y system fudd-daliadau yn gymhleth, llethol, a hyd yn oed croes. Er enghraifft, mae gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) – sef y prif fudd-dal i blant anabl – yn gallu bod yn drawmatig. Mae gofyn i deuluoedd ail-fyw profiadau poenus a chyfiawnhau anghenion eu plentyn.

Rhannodd un rhiant yng Ngogledd Cymru sut y treulion nhw 4.5 mis yn ceisio adnewyddu lwfans DLA eu plentyn, gan beryglu colli cefnogaeth ariannol hanfodol - nes iddyn nhw gysylltu â ni a chael y cymorth oedd ei angen arnyn nhw. Yn anffodus, mae'r profiad hwn yn llawer rhy gyffredin.

Trwy Hawlio gyda Hyder, mae Contact Cymru a Fforwm Cymru Gyfan yn cydweithio i newid hynny. Mae'r gwasanaeth newydd yn cynnig cyfle i rieni sy'n ofalwyr yng Nghonwy a Gwynedd:

- Gael gwiriad budd-daliadau, yn gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim, i sicrhau eu bod nhw'n hawlio popeth y mae ganddynt yr hawl iddo

- Cael atebion i unrhyw gwestiynau am fudd-daliadau ac arian
- Cael cymorth uniongyrchol i gwblhau ffurflenni DLA a Thaliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Gall teuluoedd hefyd gael mynediad at adnoddau ar-lein ac all-lein wedi'u datblygu gan Fforwm Cymru Gyfan, fel y padlet Fy Hawliau / Rights in Action, ochr yn ochr â gweithdai cyngor a chymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb. Dyma roi'r cyfle i deuluoedd glywed gan rieni lleol eraill sydd wedi bod trwy'r system eu hunain.

Mae Contact Cymru yn cynnig mwy na dim ond gwybodaeth

Mae ein cyngorwyr rhieni arbenigol yn darparu mwy na dim ond gwybodaeth. Maent yn cynnig empathi, dealltwriaeth ac arweiniad ymarferol gan bobl sy'n deall yn iawn beth mae teuluoedd yn mynd drwyddo.

Gall rhieni sy'n ofalwyr yng Nghonwy neu Wynedd sy'n cael trafferth gyda budd-daliadau drefnu apwyntiad cyfrinachol, yn rhad ac am ddim yma: <https://contact.org.uk/cymru/claiming-with-confidence>.

Ynglŷn â Contact Cymru

Mae tîm Contact yng Nghymru yn cynnig cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i deuluoedd sydd â phlant anabl, waeth beth yw eu cyflwr neu eu hanabledd. Rydym yn cefnogi teuluoedd ar ffurf gweithdai a chwaraeon, a thrwy ddarparu gwybodaeth ac adnoddau lleol. I gael gwybod mwy am Contact Cymru a'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig, ewch i: <https://contact.org.uk/cymru/>

Ynglŷn â Fforwm Cymru Gyfan

Mae Fforwm Cymru Gyfan yn dod â llais a chydabyddiaeth genedlaethol i rieni a gofalwyr plant ac oedolion sy'n byw ag Anableddau Dysgu yng Nghymru. Maent yn gweithio trwy gynghrair o rwydweithiau cymorth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o bob cwr o Gymru. Darllenwch fwy yma: <https://www.allwalesforum.org.uk/>.

contact
For families with disabled children
I deuluoedd gyda phlant anabl

HAWLIO GYDA HYDER

Gwasanaeth newydd i rieni sy'n gofalu ac yn byw yng Ngwynedd a Chonwy.

Cymorth un-i-un, sy'n gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim, gan gynghorwyr arbenigol Contact.

Cymorth wedi'i deilwra gyda budd-daliadau a chymorth ariannol.

www.contact.org.uk/cymru

contact
For families with disabled children
I deuluoedd gyda phlant anabl



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

Y berthynas rhwng gofalu a thlodi mewn Gofalwyr Ifanc

Sally Duckers, Becky Evans a Leanne Jeffreys
Credu

Mae Credu yn cefnogi gofalwyr ifanc ar draws pum sir yng Nghymru – o Bowys wledig i ddinas Wrecsam ac arfordiroedd Conwy, Sir Ddinbych a Cheredigion. Mae gan bob un o'r siroedd hyn ardaloedd o amddifadedd, ardaloedd gwledig gyda'r diffyg gwasanaethau sy'n deillio o hynny, ac ardaloedd o gefnogaeth ragorol a chymunedau cryfion.

Mae statws ariannol plant yn dibynnu'n helaeth ar yr oedolion yn eu bywyd; yn aml nid oes ganddynt lawer iawn neu ddim rheolaeth dros hyn. Nid yw gofalwyr ifanc yn gallu hawlio Lwfans Gofalwr o dan 16 mlwydd oed nac ychwaith os ydynt mewn addysg lawn amser, felly pan mai nhw yw'r prif ofalwyr, nid oes unrhyw gymorth ariannol gan y wladwriaeth.

Mae gofalwyr ifanc wedi bod yn ganolbwynt i nifer o astudiaethau diweddar sy'n canolbwyntio ar effaith emosiynol gofalu a'r effaith y mae gofalu yn ei chael ar eu haddysg.

Canfu ymchwil gan MYTIME Young Carers yn 2023 fod:

70% o'r gofalwyr ifanc a astudiwyd ganddynt ar draws 5 ysgol uwchradd yn derbyn Premiwm Disgybl, o'i gymharu â 26% o'r rheini nad oeddent yn ofalwyr ifanc.

Canfu ail bapur ymchwil yn 2025 fod:

44% o ofalwyr ifanc yn derbyn prydau ysgol am ddim a 53% yn gymwys ar gyfer y Premiwm Disgybl ar draws 7 ysgol gynradd.

Yn anecdotaid, gwelwn y patrwm hwn drwy ein gwaith ein hunain gyda gofalwyr ifanc, ond ar hyn o bryd nid oes gennym y data i ddangos hyn gan nad yw gofalwyr ifanc yn cael eu nodi'n gyson ar systemau rheoli ysgolion yng Nghymru.

Canfu adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn Lloegr yn 2024 fod:

Gofalwyr ifanc yn colli 23 diwrnod o ysgol ar gyfartaledd ym mhob blwyddyn – sy'n fwy na mis i gyd.

Mae'r adroddiad hyn yn tynnu sylw at faint yr effaith sydd gan ofalu a'r anfantaision i ofalwyr ifanc, gyda goblygiadau ar eu canlyniadau addysgol, eu presenoldeb a'u lles cyffredinol.

Mae astudiaeth achos o Wrecsam yn dangos yr effaith wirioneddol ar ofalwyr ifanc o gartrefi incwm isel.

“Roeddwn yn sgwrsio gyda bachgen 14 mlwydd oed, ac roedd yn dweud mor llwglyd oedd ef yn ystod y dydd am nad yw ei lwfans pryd



ysgol am ddim (£2.65 y dydd) yn ei lenwi. Dyna yw'r cyfan mae'n ei fwyta YN YSTOD Y DYDD I GYD, ac nid ef yw'r unig un. Yr un yw'r sefyllfa gyda gwisg ysgol a phethau bach eraill; dim ond ym Mlwyddyn 7 y mae'r grant gwisg ysgol yn talu, felly mae'n anodd os cewch chi dyfiant sydyn neu os byddwch yn difetha'ch gwisg. Mae'n dorcalonnus.' Leanne (Gweithiwr Allgymorth)

Marcus Rashford: "Childhood poverty is not just about hunger. It's about the lack of opportunity, the lack of hope."

Sut mae Credu yn ymateb - cefnogaeth Holistig a Gwaith Allgymorth i'r Teulu

Mae dull Credu yn un sy'n hynod berthynol ac yn canolbwyntio ar y teulu. Mae gweithwyr allgymorth yn adeiladu ymddiriedaeth gyda gofalwyr ifanc ac yn teilwra'r gefnogaeth i ganlyniadau unigol a theuluol. Mae'r model hwn yn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn derbyn cymorth cyhyd ag y mae ei angen arnynt. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys:

- Archwilio amgylchiadau personol
- Cyd-greu atebion
- Cysylltu teuluoedd ag adnoddau cymunedol

Mae'r dull hwn wedi profi'n drawsnewidiol i deuluoedd sy'n wynebu heriau cymhleth, yn enwedig y rhai mewn tlodi neu gartrefi incwm isel.

Mae Credu wedi datblygu **Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion** sy'n cael ei chynhyrchu ar y cyd gyda gofalwyr, addysgwyr ac arbenigwyr ieuenctid. Mae'r rhaglen yn:

- Codi ymwybyddiaeth am brofiadau gofalwyr ifanc
- Hyrwyddo cynhwysiant ac empathi
- Cynnig cynlluniau gwersi hyblyg ar gyfer grwpiau oedran gwahanol

Gellir dod o hyd i hyn ar hwb.cymru neu ddilyn y ddolen hon: <https://padlet.com/creduteam/rhaglen-gofalwyr-ifanc-young-carers-programme-phm9cnrvjiqyk5lq>

Mae Credu yn trefnu cyrsiau preswyl, teithiau a gweithdai creadigol i roi seibiant i ofalwyr ifanc oddi

wrth eu cyfrifoldebau. Enghreifftiau nodedig o 2025 yw:

- Gŵyl Gofalwyr Ifanc: Mynychodd dros 300 o ofalwyr o bob cwr o Gymru wersyll dwy noson yn llawn o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored
- Teithiau a ariennir gan Amser: mae'r teithiau hyn yn canolbwyntio ar greu diwrnodau teuluol cofiadwy yn ogystal â theithiau a digwyddiadau penodol i ofalwyr ifanc
- Cyrsiau Blasu Preswyl ym Mhrifysgol Bangor: Cefnogodd Credu daith i ofalwyr ifanc i brofi bywyd prifysgol a chael y gofod i fyfyrto ar y rhwystrau y maent yn eu hwynebu

Darperir y digwyddiadau hyn am ddim, gan roi cyfle cyfartal i bawb.

Mae Credu wedi gallu cynnig cymorth ariannol o'r math sy'n ymwneud â chostau byw. Y llynedd fe wnaethom gefnogi dros 300 o deuluoedd gyda chefnogaeth uniongyrchol.

"Mae hyn yn mynd i helpu cymaint. Mae'n anodd egluro gan nad yw'r geiriau'n gallu mynegi pa mor deimladwy yw hyn a pha mor ddiolchgar ydw i. Faint yn llai o orbryder rwy'n ei deimlo i mi a'm plant... Mae fy mhlant yn hapus o weld eu mam yn gwenu ac yn peidio â phoeni am unwaith... Diolch enfawr am yr help a'r caredigrwydd xx."
Rhiant i ofalwyr ifanc

"Mae hyn wedi dod â dagrau i'm llygaid. Diolch yn fawr iawn am y caredigrwydd a'r gefnogaeth hon, rwy'n hynod ddiolchgar. Mae fel petai angel wedi cael ei anfon i'n cefnogi ni, nawr rwy'n gwybod pam roedd T mor gyffrous eich bod yn dod."
Rhiant gofalwr ifanc

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i <https://www.carers.cymru/> neu ebostiwch: info@credu.cymru



A Network Partner of
CARERS TRUST



Mae Angen Stopio Siarad am y “Cap Budd-daliadau ar Gyfer Dau Blentyn”

Mary Sherwood, Fairer Future

Yn 2013, cyflwynwyd y Cap Budd-Daliadau gya'r nod o leddfu'r cwynion wrth bobl oedd yn teimlo bod y siawns y bydd pobl nad oeddynt yn gweithio mewn swydd â thal yn gallu bennu lan gyda lefel uwch o arian i gymharu a'r rheini oedd yn gweithio mewn swydd â thal yn anheg.

Heb ystyried y manylion technegol eang a ddryslyd sy'n gysylltiedig â'r system budd-daliadau, a heb ystyried ffyrdd mwy synhwyrol o ymateb i gwynion o'r fath, gadwech i ni edrych ar beth yn union mae'r Cap Budd-daliadau yn gwneud. Os yw eich incwm (o weithio) yn cwmpo o dan lefel benodol, yna bydd cyfanswm y gallech chi gael mewn budd-daliadau yn cael ei chapio. Ar gyfer cwpl, neu riant sengl sy'n byw gyda'i phlant, tu fas i Lundain, mae'r cap ar hyn o bryd yn sicrhau ni fydd y cartref yn derbyn mwy na £22 mil yn flynyddol.

Ar ôl ystyried amgylchiadau eich teulu, a phob elfen o'r cymorth yr ydych yn gymwys i wedi'i adio i fyny, mae popeth dros £22 mil yn cael ei gymryd bant o'r cyfanswm rydych yn derbyn, heb drafod o gwbl am sut yn y byd rydych chi fod i ymdopi.

Nid yw'r cap yn berthnasol i bawb; mewn rhai amgylchiadau mae cartref yn esgusodol (nid yw'r cap yn berthnasol o gwbl os ydych yn ennill dros £846 yn fisol). Mae'r cap byth yn berthnasol i bensynwyr, ac felly mae ond yn effeithio pobl sydd o'r oed i weithio, a phlant. Fel arfer mae teuluoedd mawr, dan arweiniad unigolyn sydd methu cymryd swydd, sydd yn cael eu heffeithio'r gwaethaf.

Felly, dyna'r **Cap Budd-daliadau**.

Tipyn yn hwyrach, cyflwynodd yr un llywodraeth polisi arall: mae gan rywun sy'n derbyn Budd-dal am Blant yr hawl i dderbyn y budd-daliadau, ond dim ond ar gyfer y ddau blentyn gyntaf. Dyma'r Cyfyngiad Dau Blentyn, ac mae'n berthnasol i Gredyd Cynhwysol. Mae cyfrifiad Credyd Cynhwysol yn adio elfen ar gyfer pawb yn y cartref-pob oedolyn a phob plentyn. Os mae'r Cap Budd-daliadau yn berthnasol, yna bydd yr elfennau ar gyfer y trydydd blentyn ac ymlaen yn cael eu dileu. Fel petai nad ydynt yn bodoli.



Mae dryswch yn cael ei achosi wrth drafod y Cap Budd-daliadau ar gyfer Dau Blentyn. Mae sawl person yn credu bod Budd-daliadau ar gyfer plant yn cael ei chapio ar ôl dau blentyn, sydd yn broblematig am sawl rheswm.

Roedd Budd-dal am Blant yn un o'r budd-daliadau ar gyfer pawb cyn i'r llywodraeth benderfynu y dylai pobl sydd ar incwm uwch ad-dalu'r taliadau trwy dreth, mewn proses hunanasesu cymhleth. Ond mae hawl i deulu dderbyn Budd-dal am blant Blant ar gyfer unrhyw nifer o blant- nad ydy'n rhan o'r Cyfyngiad Dau Blentyn. Hapus? Dim mewn gwirionedd. Mae Budd-dal am Blant yn £17.25 yn wythnosol fesul plentyn (yr ail blentyn a'r rheini sy'n dilyn): swm defnyddiol er yn isel. Mae Credyd Cynhwysol llawer yn uwch, a bydd colled llawer mwy difrifol yn dod o gael eich gwrthod ohono.

Felly, nad oes gyfyngiad ar Fudd-dal am Blant - os nad ydych yn derbyn budd-daliadau arall, gallwch chi ei derbyn am dair neu bedair o blant, neu mwy. Ond... ydych yn cofio'r Cap Budd-daliadau? Mae Budd-dal am Blant yn un o'r sawl budd-daliad sy'n cyfri mewn cyfanswm incwm budd-daliadau i'r cartref. Mewn theori, rydych yn gymwys i'w dderbyn dros bob plentyn yn eich teulu, ond nad yw hyn yn helpu os mae'r Cap Budd-daliadau yn tynnu arian oddi wrthyh.

Mae'r Cap Budd-daliadau a'r Cyfyngiad Dau Blentyn yn ddau bolisi annibynnol sydd yn gwneud difrod i deuluoedd- yn enwedig i deuluoedd gyda dau

blentyn neu mwy. Dywed y Cyfyngiad nad oes ots gan y llywodraeth am y nifer o blant sydd gennych, mae hawl i chi dderbyn Credyd Cynhwysol ar gyfer y ddau blentyn gyntaf (er bod hawl i chi dderbyn Budd-dal am Blant drostyn nhw i gyd) tra bod y Cap yn pwysleisio nid oes ots pam mae cyfanswm rydych yn gymwys i yn adio lan i'r rhif y mae o, mae popeth dros £22 mil y flwyddyn yn cael ei gymryd ac rydych chi'n derbyn beth sydd ar ôl. Mae'r polisïau gwahanol yma yn dibynnu ar ddeddfau gwahanol- mae angen eu cydnabod a'u drafod fel problemau gwahanol. Mae arbenigwyr tlodi plentynod yn glir ar y ffaith bod angen sgrapio'r ddau bolisi, achos roedd tlodi plentynod yn ddigon drwg cyn iddynt gael eu cyflwyno ac erbyn hyn mae'n llawer gwaeth.

Mae bod yn aneglur ynglŷn â'r polisïau sy'n creu anhawster yn y wlad yn caniatáu i gamdriniaeth a chamwybodaeth ledaenu. Er enghraifft, mae ambell blaidd yn addo i sgrapio'r Cyfyngiad Dau Blentyn, ac mae rhai pobl sy'n dioddef o dlodi yn gyffrous am hyn, achos nad ydynt yn deall bydd y Cap Budd-daliadau dal yn berthnasol.

Wrth drafod "y cap budd-dal am ddau blentyn", rydym yn cuddio maint o'r dioddef a achosir gan y ddau bolisi gwahanol yma, ac mae pwerau negyddol yn gallu cymryd mantais o'r bylchau mewn dealltwriaeth pobl. Fel gweithredwyr, gadwech i ni fod yn glir ac yn sicr am y gwahaniaeth. Beirniadwyd y Cenhedloedd Unedig y ddau bolisi fel toriad amlwg o Hawliau Dynol, ac mae angen i'r ddau i fynd.

Mae Fairer Future yn fenter gymdeithasol sy'n rhannu gwybodaeth i daclo anghyfartaledd a thlodi. Rydym yn darparu hwyluso, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth er mwyn i chi wneud y gwaith orau posib. www.fairerfuture.org.uk

 FAIRER FUTURE

Costau gofalu: Stori un teulu yng nghanol argyfwng cenedlaethol

Davina Carey-Evans, Family Fund

Yn y Barri, De Cymru, nid yw baich gofalu byth yn cilio. Mae Julia, mam i dri, yn dechrau pob diwrnod cyn y wawr - nid o ddewis, ond o angen. Heb gar ac yn gofalu am ei merch Carys, 16 oed, sydd ag epilepsy sy'n gwrthsefyll cyffuriau ac anghenion ychwanegol, mae Julia yn cydbwysu rôl ofalu ddiflino gartref â swydd llawn amser mewn ysgol arbennig. Nosweithiau heb gwsg, offer wedi torri, prydau'n cael eu hepgor - mae'n byw mewn modd goroesi parhaus.

Mae ei stori, sy'n dorcalonnus o gyfarwydd, yn ymddangos yn adroddiad Costau Gofalu 2025 elusen anabledd Family Fund, sydd wedi'i seilio ar 2,300 o deuluoedd sy'n magu plant anabl neu'n ddifrifol wael ar incwm isel ledled y DU. Mae'n datgelu realiti creulon: mae bron i hanner y teuluoedd y mae'r elusen yn eu cefnogi yn methu fforddio costau byw sylfaenol, er eu bod yn derbyn budd-daliadau anabledd. Nid oes gan dros 87% unrhyw gynilion o gwbl, ac maent yn methu â disodli eitemau hanfodol fel gwelyau neu beiriannau golchi.

Nid yw gofalu'n unig yn heriol - mae'n ormesol.

Mae rhieni'n darparu goruchwyliaeth barhaus, gofal meddygol, a chefnogaeth emosiynol - sy'n gyfystyr â swydd llawn amser, ddi-dâl. Dim ond 7% o ofalwyr sy'n gallu gweithio cymaint ag y byddent yn dymuno.



[Mae Julia'n byw ym Mharri, De Cymru, gyda'i merch Carys (16 oed) a'i mab Iestyn (12 oed). Mae merch hynaf Julia, Seren, yn 23 oed. Mae gan Carys epilepsi sy'n gwrthsefyll meddyginiaeth, anawsterau dysgu, ac mae'n awtistig heb ddiagnosis swyddogol. Mae Julia'n gweithio'n llawn amser mewn ysgol arbennig.]

Mae profiad Julia yn nodweddiadol: "Rwy'n gweithio drwy'r dydd yn flinedig iawn." Nid yw Carys yn cysgu rhwng hanner nos a phump, ac mae'n rhaid i Julia ddal trê'n i'r gwaith cyn y wawr.

Mae'r straen ariannol yn cael effaith ddifrifol: mae 51% o deuluoedd yn sgipio neu'n lleihau prydau, bron i hanner yn methu fforddio gofal deintyddol; mae 17% yn cael trafferth talu am feddyginiaeth sylfaenol ac ni

all 11% hyd yn oed brynu nwyddau ymolchi. Y tu ôl i'r ystadegau hyn mae wynebaw fel Julia - yn anobeithiol, yn flinedig, ond yn benderfynol.

Mae iechyd meddwl hefyd yn dioddef - mae 28% o rieni gofalwyr yn dangos arwyddion o iselder clinigol. Mae dwy ran o dair o blant yn cael eu heffeithio'n emosiynol ac yn addysgol gan straen ariannol. Mae bywyd cyfan y teulu'n plygu o dan y pwysau: "Alla i ddim dathlu penblwyddi. Does dim arian. Rydyn ni'n byw ar geiniogau," medd Julia.

Mae'r bylchau mewn cefnogaeth yn ehangu pan fydd plant yn tyfu'n hŷn ac yn tyfu allan o'r gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael: "Mae Carys yn rhy hen i gael ofal gan ofalwr plant," eglura Julia, "Mae arnom angen rhywun sydd wedi'i hyfforddi i ymdrin ag atafaeliadau - ond unwaith y byddwch yn crybwyll anghenion cymhleth, mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn dweud na."

Ymhlith y pwysau o fywyd bob dydd, mae Family Fund yn rhoi rhyddhad. Derbyniodd Julia dalebau ar gyfer gwyliau byr gyda'r teulu: "Roedd yn fendith. Roedden ni'n gallu anadlu. Cysgu. Ymlacio. Roedd rhywun wedi poeni digon i estyn cymorth - rhywun na fyddwn ni byth yn ei gwrdd."

Y llynedd, darparodd Family Fund dros 200,000 o grantiau ac achosion o gymorth i deuluoedd sy'n magu plant anabl neu'n ddifrifol wael. Ond mae'r hyn y mae teuluoedd yn ei ddweud wrthym yn mynd ymhell y tu hwnt i angen ariannol. Maen nhw'n disgrifio system sy'n methu â chydabod eu hawl i'r un cyfleoedd a'r un safon byw ag y mae eraill yn ei gymryd yn ganiataol. Dyna pam mae Family Fund yn galw am newidiadau polisi brys, i sicrhau bod teuluoedd yn gallu ffynnu, nid dim ond goroesi. Rydym yn argymhell cydnabod gwir gost anabled, ailystyried disgwyliadau gwaith ar gyfer gofalwyr, sicrhau ofal plant pwrpasol, a rhoi blaenoriaeth i les gofalwyr – cyn i'r argyfwng cenedlaethol waethygu.

Mae Julia yn crynhoi'r cyfan: "Dwi'n galw ein bywyd ni'n 'dro annisgwyl'. Gall popeth newid mewn eiliad." I filoedd o deuluoedd fel ei theulu hi, nid yw newid yn unig yn angenrheidiol - mae'n hwyr eisoes.

Dyfyniadau gan Deuluoedd Eraill

"Rwy'n isel fy ysbryd yn feddyliol ac wedi blino'n gorfforol o ofalu am fy nau blentyn anabl. Alla i ddim canolbwyntio na gwneud unrhyw waith. Mae gen

i ddigon o waith i'w wneud gyda'u hapwyntiadau, llenwi ffurflenni, cyfeiriadau a meddyginiaeth."

"Nid yw'r gronfa cymorth cartref ar agor eto i wneud cais. Rwy'n parhau i wirio'n daer. Mae gan Arthur lawer o offer meddygol ac mae'n ei chael hi'n anodd rheoleiddio ei dymheredd – mae'r adeg hon o'r flwyddyn yn waeth i ni. Mae ganddo diwb bwydo sydd angen ei wefru'n ddyddiol, lifft drwy'r llawr, hoist, gwely a sedd y baddon – i gyd yn drydanol."*

"Mae arnom angen gofal plant sy'n cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Fel arfer, dydy gofalwyr plant ddim eisiau cymryd unrhyw blant ag anghenion ychwanegol."

"Mae gen i 4 o blant anabl ac mae 2 ohonynt angen cymorth gyda phob dim bob dydd. Dydw i ddim yn cael cysgu ac nid oes gen i unrhyw gyfle i weithio."

"Fyddwn i ddim yn gadael fy mab gyda chwmnïau gofal plant gan ei fod yn ansiarad a bregus."

"Mae fy mab yn cnoi ei ddillad ac yn eu difetha'n gyflym, felly rydyn ni'n gorfod disodli popeth yn barhaus o bjs i grysau i gotiau."

"Mae gan fy mhleintyn anabl pica ac mae'n dinistrio byrddau sgertio ac y lloriau."

"Maen nhw i gyd yn anghynhennol felly rydw i'n disodli'r holl dduvets, dillad gwely a'r gwelyau eu hunain yn rheolaidd. Rhyng hynny a'u cadw'n llawn bwyd a dillad (maen nhw'n cnoi eu dillad yn ddyddiol) rydw i'n disodli'r rhain o hyd. Mae fy mân a'm sychwyr yn torri i lawr drwy'r amser gan fy mod i'n gwneud 3–4 llwyth o olchi bob dydd."

"Mae fy mab yn cael ei addysgu gartref oherwydd ei anghenion ac orbryder. Mae'n faich ariannol enfawr cael ef gartref 24 awr y dydd gyda'r holl filiau hanfodol."

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am waith Family Fund, anfonwch e-bost at Davina Carey-Evans, Partner Ymgysylltu (Cymru) ar davina.carey-evans@familyfund.org.uk





Hawliau Lles Pobl Sir Benfro: Hybu hyder ariannol i deuluoedd yn Sir Benfro

Gemma Baker, Cyngor Sir Penfro

Mewn cyfnod pan fo cost byw yn parhau i godi a phwysau ariannol yn pwyso'n drwm ar deuluoedd, mae prosiect arloesol yn Sir Benfro yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae **People PWR** - talfyriad am brosiect Hawliau Lles Pobl Sir Benfro - yn fenter feiddgar a thosturiol, a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Penfro ac a gyflwynir gan Gyngor ar Bopeth Sir Benfro, a gynlluniwyd i gefnogi teuluoedd â phlant oedran ysgol gan sicrhau eu bod yn hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael. Mae hyn yn cael effaith hynod gadarnhaol, yn enwedig ar deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan dlodi neu sydd mewn perygl o dlodi, drwy helpu i greu dyfodol ariannol mwy sefydlog a chadarnhaol i lawer.

Wedi'i lansio yn 2023 fel prosiect peilot, mae Hawliau Lles Pobl Sir Benfro yn mabwysiadu dull

cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fynd i'r afael â chaledi ariannol. Wedi'i ysbrydoli gan brofiad rhaglen *Maximise!* yn yr Alban, nod y prosiect yw creu sefydlogrwydd ariannol gwell i aelwydydd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a gwella gallu ariannol ledled y sir.

Cymorth ariannol dynol ac agos-atoch

Wrth wraidd Hawliau Lles Pobl Sir Benfro mae syniad syml ond pwerus: bod pob teulu'n haeddu deall a chael gafael ar yr holl gymorth y mae ganddyn nhw hawl i'w gael. Ar ôl atgyfeirio—rhan amlaf drwy ysgolion, er bod hunanatgyfeiriadau hefyd yn cael eu croesawu—mae teuluoedd yn cael yr hyn y mae'r tîm yn ei alw'n anffurfiol yn **“MOT ariannol.”**

Mae hyn yn cynnwys adolygiad trylwyr o sefyllfa ariannol yr aelwyd, gan ganolbwyntio ar **hawliau lles a chynyddu incwm**. Mae cynghorwyr yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau a hawliau cymwys, tra hefyd yn eu helpu i nodi a mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n cyfrannu at heriau ariannol.

Ond nid rhifau ar dudalen yw'r rhain yn unig. Mae tîm Hawliau Lles Pobl Sir Benfro wedi'i hyfforddi i roi cyngor ag **urddas, empathi a pharch**. Cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliadau cyfarwydd, preifat—yn aml o fewn ysgolion neu fannau cymunedol - i leihau rhwystrau i ymgysylltu ac i sicrhau bod teuluoedd yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi.

Canlyniadau go iawn, effaith go iawn

Yn ystod pum mis cyntaf 2025 yn unig, cefnogodd Hawliau Lles Pobl Sir Benfro **130 o deuluoedd** ledled Sir Benfro. Roedd y dyfardaliadau yn sylweddol: dros **£261,000** mewn budd-daliadau heb eu hawlio, gydag aelwydydd yn cynyddu eu hincwm ar gyfartaledd **£8,428 fesul aelwyd**. Mae'r rhain yn symiau arian sy'n newid bywydau i lawer o aelwydydd, gan helpu i leddfu baich costau hanfodion bob dydd fel bwyd, gwresogi a chostau ysgol.

Eto i gyd, mae'r effaith yn mynd ymhell y tu hwnt i'r ariannol. Mae teuluoedd yn dweud eu bod wedi magu mwy o hyder, bod ganddynt well dealltwriaeth o'u hawliau, ac ymdeimlad newydd o reolaeth dros eu hamgylchiadau. I lawer, mae'r prosiect wedi bod yn drobwynt.

Fel y dywedodd **James White**, Pennaeth Ymgysylltu a Chymunedau yng Nghyngor Sir Penfro:

"I rai cleientiaid, mae'r gwasanaeth hwn wedi newid bywydau. Diolch i Hawliau Lles Pobl Sir Benfro, mae dros hanner miliwn o bunnoedd wedi'u rhoi ym mhocedi trigolion Sir Benfro—a bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei wario'n lleol. Edrychaf ymlaen at weld y prosiect yn parhau i dyfu ac ehangu ei gyrhaeddiad."

Cydweithio yn ei graidd

Un o gryfderau allweddol Hawliau Lles Pobl Sir Benfro yw ei **bartneriaeth agos â'r awdurdod lleol, yn enwedig lleoliadau ysgolion**. Mae penaethiaid

ysgolion a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd wedi canmol y prosiect am ei effaith gadarnhaol ar rieni a disgyblion. Drwy gydweithio, mae Cyngor ar Bopeth Sir Benfro ac ysgolion yn meithrin dull cydgysylltiedig o gefnogi teuluoedd - un sy'n cydnabod y cysylltiad rhwng lles ariannol a chanlyniadau addysgol.

Edrych tuag at y dyfodol

Wrth i'r cyfnod peilot barhau, mae tîm Hawliau Lles Pobl Sir Benfro yn canolbwyntio ar ehangu ei gyrhaeddiad a dyfnhau ei effaith. Gyda galw cynyddol ac adborth cadarnhaol gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd, mae momentwm cryf i sicrhau dyfodol y prosiect.

Mae People Hawliau Lles Pobl Sir Benfro yn fwy na gwasanaeth hawliau lles—mae'n fudiad dros **rymuso, tegwch ac urddas**. Mewn byd lle gall llywio'r system fudd-daliadau deimlo'n llethol, mae'r prosiect hwn yn cynnig achubiaeth—ac yn ein hatgoffa, gyda'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir, y gall teuluoedd ffynnu.

Tynnodd **Geraldine Murphy**, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor ar Bopeth Sir Benfro, sylw at ymroddiad y tîm:

"Mae ein tîm o gynghorwyr wedi mynd o nerth i nerth, gan greu cysylltiadau cryf ag ysgolion a sefydliadau cymunedol. Yn bwysicaf oll, maen nhw'n poeni'n fawr am helpu teuluoedd i sicrhau bod ganddyn nhw'r offer, yr wybodaeth a'r hyder i adennill rheolaeth dros eu harian."

Angen cymorth neu eisiau mwy o wybodaeth am Hawliau Lles Pobl Sir Benfro? Gallwch gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol yn PWR@pembroscab.org neu ymweld â www.pembroscab.org am fwy o fanylion.





Prosiect chwarae i blant mewn llety dros dro

Marianne Mannello, Chwarae Cymru

Mae corff cadarn o dystiolaeth¹ sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, yn enwedig chwarae wedi'i hunandrefnu, ei wneud at les hirdymor ac uniongyrchol plant, at eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl ac at eu gwydnwch. Pan fyddan nhw'n chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu lles a'u datblygiad eu hunain.

Mae cyfleoedd i chwarae yn arbennig o fuddiol yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Gall bod yn ddigartref a byw mewn llety dros dro neu mewn amodau tai gwael achosi adfyd ac ansicrwydd. Mae pecyn cymorth *Access to Play for Children in Situations of Crisis* a gyhoeddwyd yn 2018 gan yr International Play Association (IPA) yn nodi, mewn sefyllfaoedd o argyfwng, straen, datblygiad corfforol ac emosiynol gwan, bod teimladau o ddiffyg rheolaeth a cholli ymddiriedaeth yn lluosogi'n raddol os nad yw plant yn cael cyfleoedd bob-dydd i chwarae.²

Yn ystod ac yn syth ar ôl cyfnodau o ansicrwydd, mae chwarae:

- Yn helpu i roi ymdeimlad o normalrwydd a llawenydd i blant sy'n wynebu colled, cael eu hynysu a thrawma
- Yn helpu plant i oresgyn poen emosiynol ac adennill rheolaeth dros eu bywydau
- Yn helpu plant i ddeall beth sy'n digwydd iddyn nhw, ac yn eu galluogi i brofi hwyl a mwynhad
- Yn cynnig cyfle i blant archwilio eu creadigrwydd eu hunain

Gan ei fod yn pryderu ynghylch y niferoedd cynyddol o blant sy'n byw mewn llety dros dro, fel llety gwely a brecwast a gwestai, datblygodd

Chwarae Cymru brosiect i ganfod y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu cyfleoedd i chwarae yn y mannau hyn.

Fe wnaethom weithio gyda'n rhwydwaith o swyddogion chwarae mewn pedwar awdurdod lleol i ddeall y cyfyngiadau a'r cyfleoedd mewn llety dros dro. Aethom ati i ddarparu pecynnau chwarae, a oedd yn cynnwys syniadau syml, am ddim i deuluoedd er mwyn cefnogi chwarae mewn mannau byw cyfyngedig. Fe wnaethom hefyd ddarparu cyfarpar bach a syniadau i gefnogi gweithgaredd corfforol mewn mannau bach a chyflenwi bocsys o ddeunyddiau celf a chrefft i annog plant i chwarae'n greadigol.

Bwriad yr eitemau bach syml hyn oedd galluogi timau chwarae i ymgysylltu â rhieni i glywed mwy am eu profiad personol o gefnogi plant i chwarae mewn llety dros dro. Galluogodd y prosiect i ni ddysgu hefyd am yr heriau i swyddogion tai a darparwyr llety dros dro.

Er mai prosiect ar raddfa fach oedd hwn, rydym yn gobeithio y bydd yr hyn a ddysgwyd yn ein galluogi i weithio gydag ymarferwyr y gellir ymddiried ynddynt a theuluoedd i gyd-greu adnodd ar gyfer ymarferwyr ac sydd wedi'i seilio ar brofiad bywyd. Y nod yw gwella sut mae gwasanaethau'n cefnogi chwarae mewn cyd-destunau incwm isel a chyd-destunau yr effeithir arnynt gan ddadleoli.

Mae ein prosiect wedi tynnu sylw at y ffaith bod plant sy'n byw mewn llety dros dro yn aml yn wynebu amgylcheddau anniogel neu anaddas i chware ynddynt. Gall plant ganfod bod ganddyn nhw le cyfyngedig ac efallai y disgwylir iddyn nhw aros dan do am gyfnodau hir. Nododd ein hymchwili mai cyfleoedd cyfyngedig sydd gan y plant hyn i chwarae yn yr amgylchedd byw ac mewn darpariaeth gymunedol.

Mae ein hymgysylltiad â rhieni a theuluoedd yn dangos nad oes gan blant fawr o fynediad at fannau diogel, glân neu ddiwylliannol briodol i chwarae ynddynt, ac yn aml maent wedi'u hynysu o ddarpariaeth gymunedol:

'Dw i'n poeni am ganiatáu i'm plentyn chwarae. Dw i ddim yn adnabod y bobl eraill sy'n byw yma.'

'Dw i'n teimlo fy mod i bob amser yn dweud wrth fy mhlant am fod yn dawl. Weithiau pan fyddan

nhw'n chwarae maen nhw'n swnllyd, a dw i ddim eisiau cael stŵr am adael i'r plant fod yn swnllyd neu wneud llanast.'

'Dw i ddim yn gwybod ble i fynd â fy mhlant i chwarae. Mae yna ffyrdd prysur a does gen i ddim arian i fynd â nhw i glybiau neu leoedd chwarae.'

'Mae ein lle byw yn fach – does dim lle i chwarae. Mae'r ardal gymunedol – os allwch chi ei galw'n hynny – yn fudr a does neb yn gofalu amdani. Dyw e ddim yn teimlo fel lle da i fy mhlant chwarae.'

'Trueni bod dim lle i chwarae y tu allan. Mae'n anodd iawn i fy mab ollwng stêm a does dim llawer o gyfleoedd iddo chwarae gyda phlant eraill.'

Mae angen gwella ar fyrder brofiadau bywyd plant yng Nghymru sydd, oherwydd argyfwng, yn byw mewn llety dros dro. Nid yw'r amgylcheddau hyn – gwestai, llety gwely a brecwast neu dai cymunedol wedi'u haddasu – wedi'u cynllunio gyda phlant mewn golwg a phrin iawn yw'r cyfleoedd a gynigiant i chwarae, os o gwbl. Pan fydd plant yn wynebu digartrefedd, rhaid ystyried darpariaeth ar gyfer chwarae fel rhan o'r asesiad hwn i gefnogi lles uniongyrchol a hirdymor plant.

Nid rhywbeth moethus yw chwarae. Mae'n hawl o dan Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac mae'n hanfodol ar gyfer adferiad, dysgu a chysylltiad cymdeithasol. I blant sydd wedi wynebu dadleoli, tlodi neu drawma, mae cael cyfleoedd i chwarae yn bwysicach fyth, ac eto, mae'n cael ei anwybyddu'n rheolaidd mewn lleoliadau tai dros dro.

Os hoffech ddysgu mwy am y gwaith hwn, anfonwch e-bost at: Marianne@play.wales

Cyfeiriadau

1. Russell, W., Barclay, M. a Tawil, B. (2024) Chwarae a lles. Adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru, Caerdydd: Chwarae Cymru.
2. King-Sheard, M., Mannello, M. a Casey, T. (gol) (2018) Access to Play for Children in Situations of Crisis: Play: rights and practice: A toolkit for staff, managers and policy makers, Faringdon: International Play Association, tud. 4.



Gofyn i Aelod o Senedd Cymru ddileu'r terfyn dau blentyn

Sean O'Neill

Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Polisi,
Plant yng Nghymru

Mae cyfraddau tlodi plant yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel ac yn cynyddu. Mae'n bryd i Lywodraeth y DU weithredu ar frys i wneud newidiadau mawr cyn i genhedlaeth arall o blant gael eu heffeithio'n negyddol.

Dyma un o nifer o negeseuon a ddaeth i'r amlwg o gyfarfod cyntaf y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant yng Nghymru ar ei newydd wedd yn San Steffan, a gyfarfu cyn gwyliau'r haf. Mae'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol, sydd bellach yn cael ei gadeirio gan yr AS newydd ei hethol Gill German (Gogledd Clwyd), ac yn cael ei reoli gan Plant yng Nghymru (yr ysgrifenyddiaeth), yn rhoi cyfle i ASau Cymru, Arglwyddi a'u swyddogion gyfarfod bob tymor i drafod y materion blaenoriaeth sy'n effeithio ar fabanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd yn bennaf o fewn rheolaeth Llywodraeth San Steffan.

Roedd cyfarfod y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar dlodi plant yn cynnwys cyflwyniadau gan sefydliadau trydydd sector cenedlaethol yng Nghymru, a oedd wedi cyfarfod yn flaenorol â chynrychiolwyr Tasglu Tlodi Plant Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd, gan gynnwys yr AS Ellie Reeves. Trafododd aelodau Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru,

Cyngor ar Bopeth Cymru ac Achub y Plant Cymru effaith newidiadau nawdd cymdeithasol ac effeithiau'r dirywiad yn yr economi ar blant a theuluoedd, a'r blaenoriaethau allweddol y mae'n rhaid i Strategaeth Tlodi Plant y DU a Chyllideb mis Tachwedd fynd i'r afael â nhw.

Ymhlith y newidiadau a alwyd amdanynt roedd dod â'r terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau i ben, uwchraddio'r Lwfans Tai Lleol ac ailystyried diwygiadau i fudd-daliadau anabledd. Cafodd y potensial i greu Taliad Plant Cymru, yn debyg i'r un a gyflwynwyd yn yr Alban ar gyfer plant cymwys, ei hyrwyddo hefyd. Roedd yr aelodau'n gallu tynnu ar brofiad eu sefydliadau o ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a theuluoedd yng Nghymru, drwy eu gwasanaethau, llinellau cyngor ac ymchwil ddiweddar.

Cafodd aelodau'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol eu briffio ar effaith negyddol y terfyn dau blentyn ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ochr yn ochr â llawer o'r heriau eraill sy'n wynebu mwy a mwy o deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i fudd-daliadau a phwysau parhaus costau byw yng Nghymru. Clywodd yr aelodau sut mae'r terfyn dau blentyn yn cosbi plant a theuluoedd drwy gyfyngu ar faint o fudd-daliadau lles y gall

aelwyd eu derbyn, waeth beth fo'u hangen. Gan ei fod yn groes i hawliau dynol plant, mae'r Cenhedloedd Unedig a Llywodraeth Cymru wedi galw am ddileu'r polisi sawl gwaith, gan adleisio galwadau tebyg gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, elusennau a chynghreiriau blaenllaw yn y DU yn ogystal ag undebau addysg.

Yn ôl ystadegau Llywodraeth y DU, mae 1.6 miliwn o blant yn y DU wedi'u heffeithio gan y polisi, gyda 59% o'r teuluoedd yr effeithir arnynt yn cynnwys o leiaf un oedolyn mewn gwaith. Byddai o leiaf 350,000 o blant yn dod allan o dlodi pe bai'r terfyn o ddau blentyn yn cael ei ddileu. At hynny, pe bai'r cap ar fudd-daliadau yn cael ei ddiddymu hefyd, gallai o leiaf 500,000 o blant ddod allan o dlodi erbyn diwedd y tymor seneddol presennol.


Gyda chyllideb mis Tachwedd sydd ar ddod a chyhoeddiad Strategaeth Tlodi Plant y DU y mae mawr disgwyl amdani, mae gan Lywodraeth y DU gyfle clir i ddangos uchelgais a sicrhau tegwch drwy leddfu anawsterau ariannol llawer o aelwydydd yng Nghymru drwy ddileu'r polisi gwahaniaethol hwn. Gyda ffigurau uwch yng Nghabinet y DU bellach yn cydnabod yn gyhoeddus mai codi'r cap yw'r ffordd fwyaf effeithiol o liniaru tlodi plant, nawr yw'r amser i weithredu cyn i fwy o blant yng Nghymru gael eu heffeithio'n negyddol. Rydym yn gobeithio sicrhau cefnogaeth barhaus ASau ac Arglwyddi Cymru gyda'n hymdrechion.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am waith y Grŵp Seneddol Hollbleidiol, anfonwch e-bost at:

sean.oneill@childreninwales.org.uk



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES



Gwaith ieuenctid, pobl ifanc a thlodi: Yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym

Emma Chivers,
Lab Arweinyddiaeth Gwaith Ieuenctid



Deuthum i waith ieuenctid am y tro cyntaf fel person ifanc fy hun - rhywun a ddaeth o hyd i gefnogaeth, perthyn, a hwyl trwy'r perthnasoedd a gynigir. Deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, fel Cyfarwyddwr y Lab Arweinyddiaeth Gwaith Ieuenctid a Chadeirydd Youth Cymru, rwy'n dal i weld bob dydd sut mae gwaith ieuenctid yn trawsnewid bywydau ac yn helpu pobl ifanc i lywio rhwystrau.

Dyna pam rydw i wedi bod yn siarad â phlant, pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid ledled Cymru - gwranddo ar eu profiadau o dlodi a sut mae gwaith ieuenctid yn eu helpu i ymdopi. Bydd y sgysiau hyn, sy'n rhan o brosiect a ariennir drwy Grant Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, yn llywio'r adroddiad cynnydd nesaf ym mis Rhagfyr 2025, gan sicrhau bod profiadau byw pobl ifanc a theuluoedd yr effeithir arnynt gan dlodi yn cael eu cynrychioli.

Nid yw tlodi yn ymwneud â budd-daliadau yn unig - ac nid yw gwaith bob amser yn dod i ben. Dywedodd gweithwyr ieuenctid wrthyf fod llawer o bobl ifanc yn byw mewn aelwydydd lle mae rhieni yn gweithio oriau hir neu swyddi lluosog ond yn dal i gael trafferth diwallu anghenion sylfaenol. Mae

costau tai, ynni a bwyd cynyddol yn golygu nad yw cyflogau bellach yn ymestyn yn ddigon pell. Ar gyfer teuluoedd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau, anaml y mae'r cymorth sydd ar gael yn cyfateb i'r gwir gost byw. P'un a yw mewn gwaith neu beidio, mae rhieni yn wynebu pwysau enfawr - ac mae pobl ifanc yn teimlo'r straen ar eu lles, eu cyfleoedd, a'u teimlad o ddiogelwch.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru yn cydnabod yr angen i leihau costau a gwneud y mwyaf o incwm, ond mae gwranddo ar y straeon rheng flaen hyn yn dangos bod mynd i'r afael â thlodi yn gofyn am edrych y tu hwnt i categorïau fel "mewn gwaith" neu "ar fudd-daliadau" a gofyn cwestiwn symlach: a oes gan deuluoedd ddigon i fyw'n dda? Mae gweithwyr ieuenctid yn gweld yr effaith bob dydd, ac mae pobl ifanc yn ei fyw - gan ein hatgoffa bod rhaid i bolisi gysylltu ag ymarfer.

Ledled Cymru, mae gweithwyr ieuenctid yn gwneud llawer mwy na darparu mannau diogel - maen nhw'n dal y llinell ar gyfer lles pobl ifanc. Nid yw tlodi yn cyfyngu dewisiadau yn unig; mae'n siapio sut mae pobl ifanc yn gweld eu hunain a'u dyfodol. Mae

llawer yn teimlo'n bryderus neu'n euog wrth wyllo rhieni yn cael trafferth. Dywedodd un person ifanc wrthyf, "If my parents' mental health is good, mine is too."

Siaradodd pobl ifanc am sut mae prydau ysgol am ddim a grantiau gwisg yn lleihau straen dyddiol ac yn eu helpu i deimlo eu bod wedi'u cynnwys. "Llai o straen ar riant, llai o straen arnoch chi," meddai un. Mae'r mewnwleidiadau hyn yn dweud mwy nag y gallai ystadegau erioed. Mae prydau ysgol am ddim yn dod â sefydlogrwydd - ond mae bylchau yn parhau yn ystod gwyliau, ac mae'r angen am hanfodion fel bwyd, dillad a theithio yn parhau. Mae gwaith ieuenctid yn camu i mewn i'r gofod hwn. Mae'n darparu oedolion dibynadwy ac amgylcheddau diogel lle gall pobl ifanc siarad yn agored, magu hyder, a dod o hyd i obaith. Trwy gaffis ieuenctid, prosiectau creadigol, a rhaglenni gwyliau, mae gweithwyr ieuenctid nid yn unig yn cynnig gweithgareddau - maen nhw'n cynnig sefydlogrwydd a pherthyn. Dywedodd un person ifanc nad yw "Un pryd y dydd yn ddigon," a rhannodd Gwasanaeth Ymgysylltu a Pherthyn Ieuenctid Conway sut maen nhw'n gweithio gydag ysgolion yn ystod gwyliau'r haf i gyflwyno 'sesiynau Bwyd a Hwyl' i helpu pobl ifanc i oresgyn hyn.

Mae cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol (Putnum (2000) a Beck (2003) yn disgrifio cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol - y rhwydweithiau a'r perthnasoedd sy'n helpu pobl ifanc i adeiladu dyheadau a chael mynediad at gyfleoedd, sydd fel arfer allan o gyrraedd pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.



Staff a gwirfoddolwyr o Sesiynau Bwyd a Hwyl (Haf 2025)


Mae gweithwyr ieuenctid yn pontio'r bwlch hwnnw, gan ddileu rhwystrau a darparu cyfleoedd y mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol. Sicrhau bod profiadau yn hygyrch: cwmpasu trafndiaeth, prydau bwyd, ac offer fel nad oes unrhyw un yn teimlo ei fod wedi'i eithrio. Mae gweithwyr ieuenctid nid yn unig yn cefnogi - maen nhw'n ehangu gorwelion, herio stigma, a helpu pobl ifanc i gael dyfodol cadarnhaol.

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi'i seilio ar fframwaith cryf ar gyfer cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau pobl ifanc (YWiWRG, 2022), gyda llawer o wasanaethau yn gweithredu'r egwyddorion hyn ar waith trwy weithgareddau am ddim, darparu prydau bwyd, a thrafnidiaeth â chymhorthdal. Alinio â Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2024) ac atgyfnerthu rôl gwaith ieuenctid wrth leihau anghydraddoldeb a hyrwyddo perthyn. Mae gweithwyr ieuenctid yn ymateb gyda thosturi a chreadigrwydd - gan weithio gydag ysgolion, gwasanaethau lleol, a phartneriaid cymunedol i ddiogelu tlodi eu harfer. Mae rhai busnesau lleol hyd yn oed yn noddi clybiau brecwast neu drafndiaeth, gan sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn dechrau'r diwrnod yn llwglyd neu wedi'i eithrio.

Ond mae tlodi yn ymwneud â mwy na chaledi materol. Mae'n ymwneud ag urddas, perthyn, a thegwch. Gwranddo ar bobl ifanc yw'r cam cyntaf; Yr her go iawn yw troi eu straeon yn weithredu. Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Cymru lle nad oes potensial unrhyw berson ifanc yn cael ei gyfyngu gan dlodi na chod post.

Diolch i staff a phobl ifanc Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Rhondda Cynon Taf a Gwasanaeth Ymgysylltu a Pherthyn Ieuenctid Conwy sydd wedi helpu i lunio'r erthygl hon.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, cysylltwch ag Emma Chivers ar emma@ywleadershiplab.co.uk neu ewch i <https://ywleadershiplab.co.uk>





Tlodi, eithrio ac anghenion heb eu diwallu: Pam mae dysgwyr niwroamrywiol yn syrthio trwy'r bylchau yng Nghymru

Elsa Torres, Family Pathway

Tlodi yng Nghymru: y darlun ehangach

Mae gan Gymru un o'r cyfraddau tlodi plant uchaf yn y DU o hyd. Mae tua 31% o blant yn tyfu i fyny mewn tlodi cymharol (StatsWales, 2025) - sef dros 200,000 o ddysgwyr. Mae bron i hanner y plant sy'n byw mewn tlodi ar draws y DU yn byw mewn aelwyd sy'n cynnwys aelod o'r teulu sydd ag anabledd (Comisiwn Metrigau Cymdeithasol, 2024).

Nid yw pob plentyn niwroamrywiol yn byw mewn tlodi, ond pan fydd tlodi a niwroamrywiaeth yn cydgyfarfod, mae'r heriau'n lluosu. Mae llawer o rieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth yn lleihau neu'n rhoi'r gorau i'w gwaith er mwyn darparu gofal llawn amser pan fo systemau'n methu. Canfu Carers UK (2023) fod bron i hanner rhieni gofalmwyr yn profi gostyngiad mewn cyflogaeth, tra bod costau ychwanegol fel trafnidiaeth, gwresogi ac offer yn dwysáu'r pwysau ariannol.

QUICK FACTS

- 31% OF CHILDREN IN WALES LIVE IN POVERTY (OVER 200,000 LEARNERS).
- NEARLY 50% OF UK CHILDREN IN POVERTY LIVE IN HOUSEHOLDS WITH DISABILITY.
- 90.5% – AVERAGE SCHOOL ATTENDANCE IN WALES (2023/24).
- 84.8% – ATTENDANCE FOR PUPILS ON FREE SCHOOL MEALS.
- 45.2% – YEAR 11 PUPILS PERSISTENTLY ABSENT IN 2023/24.
- 65 PER 1,000 – FIXED-TERM EXCLUSIONS OVERALL IN 2022/23 (UP FROM 41 PRE-PANDEMIC).
- 524 PER 1,000 – EXCLUSION RATE FOR PUPILS WITH ADHD.
- 459 PER 1,000 – EXCLUSION RATE FOR PUPILS WITH BESD.
- 2,597 LEARNERS WERE IN EOTAS IN 2023/24 – THE HIGHEST ON RECORD.

Pan fydd tlodi'n cwrdd ag anghenion heb eu diwallu

Mae teuluoedd yn dweud yr un stori: mae tlodi ac anghenion heb eu diwallu'n anwahanadwy. Os yw'ch plentyn yn awtistig neu ag ADHD ac rydych hefyd yn byw mewn tlodi, mae pob rhwystr yn fwy.

Yn 2023/24, roedd presenoldeb ysgol cyfartalog yng Nghymru yn 90.5%, ond i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim disgynnodd i

84.8%. Roedd bron i hanner dysgwyr Blwyddyn 11 (45.2%) yn absennol yn gyson (Llywodraeth Cymru, Presenoldeb ac Absenoldeb 2023/24).

Darpariaeth, sgiliau a gwybodaeth: y gwir ysgogwyr tu ôl i eithrio

Anaml y mae eithrio'n ymwneud ag ymddygiad yn unig. Mae'n adlewyrchu a oes darpariaeth briodol ar waith, a oes gan staff y sgiliau i ymateb, ac a ddefnyddir gwybodaeth yn gywir i ddehongli ymddygiad.

Yn 2022/23, cyhoeddodd ysgolion 65 o eithriadau tymor penodol fesul 1,000 o ddisgyblion - i fyny o 41 fesul 1,000 cyn y pandemig. Roedd y cyfraddau'n llawer uwch i blant ag anghenion hysbys: 524 fesul 1,000 ar gyfer ADHD, 459 fesul 1,000 ar gyfer BESD, 189 fesul 1,000 ar gyfer pob plentyn ag ADY cymharu â dim ond 45 fesul 1,000 i'r rhai heb anghenion ychwanegol (Llywodraeth Cymru, Eithriadau 2022/23)

Dyweddodd un rhiant:

“Cafodd fy mab ei eithrio am ymosod – ond roedd yr ysgol yn gwybod nad oedd yn gallu ymdopi â'r sŵn ac nid oedd dim wedi'i roi ar waith.”

Erbyn i eithrio ddigwydd, mae teuluoedd fel arfer wedi bod yn codi pryderon ers misoedd. Mae eithrio'n falf ryddhau i'r system, nid datrysiad.

Byd cudd EOTAS

Yn 2023/24, roedd 2,597 o ddysgwyr mewn Addysg y Tu Allan i'r Ysgol (EOTAS) - y nifer uchaf erioed. Er bod rhai'n ffynnu, mae ymchwil yn dangos bod y dysgwyr hyn mewn mwy o berygl o broblemau iechyd meddwl ac hunan-niweidio nag eraill yn yr ysgol (Rouquette et al., BJPsych Open, 2025).

Mae teuluoedd yn aml yn disgrifio EOTAS fel cul-de-sac: “Dywedwyd wrthym ei fod yn dros dro. Ond fisoedd yn ddiweddarach, nid oes cynllun i'w dychwelyd i'r ysgol.”

Pam nad yw “darpariaeth gyffredinol” yn teimlo'n gyffredinol

Addawodd Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY 2021 hawliau cyfartal i Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Mewn gwirionedd, mae'r gweithredu wedi bod yn

anwastad, gyda theuluoedd yn adrodd am CDUau anghyson a diffyg atebolrwydd (Ymchwil y Senedd, 2024). Mae “darpariaeth gyffredinol” mewn perygl o fod yn slogan yn unig oni bai bod safonau clir a monitro cadarn yn cael eu sefydlu.

Beth sy'n helpu: dysgu o ymarfer

Dyma'r hyn sy'n gweithio mewn rhai mannau ac mae angen i Gymru ei ehangu. O dystiolaeth ac o brofiad, rhaid i Gymru:

1. Diffinio darpariaeth gyffredinol – gosod pecyn isafswm clir y mae'n rhaid i ysgolion ei ddangos
2. Gofyn am dystiolaeth cyn eithrio – rhaid dangos addasiadau cyn y gellir eithrio plentyn
3. Targedu absenoldeb sy'n gysylltiedig â thlodi – ariannu hanfodion fel trafnidiaeth a bwyd, a chyhoeddi bylchau presenoldeb rhwng FSM a ddim FSM
4. Diwygio EOTAS – ei wneud yn bont yn ôl i addysg, gyda chynlluniau adolygu ar y cyd bob chwe mis
5. Trwsio atebolrwydd – gorfodi dyletswyddau gyda therfynau amser a llwybrau esgyn

Cost oedi

Pan fydd anghenion heb eu diwallu'n cael eu hanwybyddu, mae'r gost yn symud i lawr yr afon. Mae dysgwyr a eithriwyd yn fwy tebygol o ddod yn NEET ac yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol; mae mwy na 80% o bobl ifanc mewn cadw wedi'u heithrio o'r ysgol rywbryd (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2023). Mae buddsoddi'n gynnar yn atal eithrio, yn lleihau costau tymor hir, ac yn newid bywydau.

Ymlaen

Nid yw tlodi'n fater ymylol - mae'n siapia popeth. Wedi'i gyfuno ag anghenion heb eu diwallu a methiant systemig, mae'n tanseilio dysgwyr niwroamrywiol. Ond gall y naratif hwn newid. Gyda hawliau clir, cydgynhyrchu, cefnogaeth integredig ac atebolrwydd ar y cyd, gall dysgwyr aros yn yr ysgol, gall teuluoedd gadw urddas, a gall Cymru dorri'r gadwyn eithrio.

Mae Family Pathway yn ymrwymo i'r trawsnewid hwn gan weithio gyda theuluoedd, ysgolion a gwasanaethau i adeiladu'r amgylcheddau y mae pob plentyn yn eu haeddu.

Am Family Pathway

Family Pathway is a Welsh social enterprise on a mission to close the gap for children with ALN. We partner with schools, services and families to turn policy into practice - co-designing person-centred solutions that rebuild confidence, restore trust, and make inclusion real.

Cyfeiriadau a Ffynonellau

StatsWales (2025). *Children in Relative Income Poverty by Area*. Welsh Government

Social Metrics Commission (2024). *Measuring Poverty in the UK*

Llywodraeth Cymru (2024). *Attendance and Absence in Schools, 2023/24*

Llywodraeth Cymru (2023). *Permanent and Fixed-Term Exclusions from Schools, 2022/23*

Llywodraeth Cymru (2024). *Pupils Educated Other Than at School (EOTAS), 2023/24*

Rouquette, A. et al. (2025). *Risk factors and trajectories for self-harm, neurodevelopmental disorders and mental health conditions in pupils in alternative education provision in Wales*. BJPsych Open

Llywodraeth Cymru (2018). *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)*

Llywodraeth Cymru (2021). *ALN Code for Wales*

Senedd Research (2024). *Implementation of the ALN Code – Research Briefing*

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2023). *Ystadegau Addysg a Chadw*





Pam mae Gofal Plant All-Ysgol yn bwysig

Clare Dare, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Fel sefydliad, mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi treulio llawer o flynyddoedd yn cefnogi Clybiau Plant Cymru All-Ysgol ledled Cymru i ddarparu amgylchedd diogel i blant iddynt nhw allu chwarae, cael mynediad at ofal plant, ac i alluogi eu gofalgwyr i weithio, hyfforddi, neu hyd yn oed i gymryd seibiant - gan godi teuluoedd allan o dlodi. Rydym wedi gweld bod cyfleoedd chwarae yn cael effaith ddofn a pharhaol ar les plant, a bod mynediad at chwarae mewn amgylchedd diogel a chroesawgar o'r pwys mwyaf - gan gynnal hawl angenrheidiol y plentyn (CCUHP Erthygl 31).

Mae Clybiau Plant All-Ysgol yn darparu cyfle cymdeithasol i blant chwarae, cysylltu ag ymgysylltu yn eu cymuned gartref yn ogystal â'u cymuned ehangach. Hen air grymus yw 'Mae'n cymryd pentref i fagu plentyn' ac mae'n pwysleisio rôl hanfodol y gymuned mewn magwraeth plentyn gan fyfrio ar y gymuned o gwmpas y plentyn, fel mecanwaith cefnogaeth ar gyfer teuluoedd modern a'r gwaith cysylltiedig mewn cymdeithas heddiw. Yn anochel mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn dod yn gymuned ehangach i deuluoedd

sy'n gweithio, gan gefnogi'r Plentyn, ac felly'r teulu i ddod allan o dlodi.

Heb y rhwydwaith ehangach hwn, bydd mwy o blant yn dioddef o gylchred amddifadedd am genedlaethau. Mae clwb yn darparu lle ar gyfer cwrdd â phobl newydd o'ch cymuned leol a rhannu gwybodaeth a phrofiadau o ddiwylliannau a gwerthoedd teulu ystod eang. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn grymuso plant i ddeall a datblygu sgiliau o tu allan ei deinamig teulu - gan gefnogi ffordd i ddianc o'u gylchred amddifadedd sy' wedi ymwreiddio. Mae llawer o deuluoedd wedi profi ar gyfleoedd â chanlyniadau negyddol sydd wedi hen galedu. Mae Clybiau Plant All-Ysgol yn helpu adeiladu profiadau'r plentyn, drwy gynnig profiadau cadarnhaol a chyfleodd i ffynnu.

Mae plant yn datblygu sgiliau bywyd ac mae eu hyder yn cynyddu drwy chwarae yn eu clwb lleol, maent yn cael cyfleoedd sy'n meithrin teimladau o berthyn a gofal yn eu cymuned, mae'r rhain yn werthoedd sy'n aros gyda nhw ac yn datblygu trwy gydol eu bywydau.

Mae'r cymdeithasegwr trefol Ray Oldenburg wedi nodi tri man allweddol sy'n cefnogi lles personol a chymdeithasol, mae'n bwysig deall ac adfyfrio ar hyn o safbwynt y plentyn.

Y Lle Cyntaf yw amgylchedd cartref y plentyn, eu gofod domestig preifat gyda'u gofawyr sy' gyda gobaith, yn darparu gofod diogel ac o berthyn. Yr Ail Le, yw eu hysgol, lle maent yn cysylltu â thasgau a dysgu mewn man penodol. Y Drydydd Lle yw eu Cymdeithas, lle y gallent gysylltu mewn dulliau anffurfiol.

Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn fwy na "Gofal Plant", mae'r clwb yn 'Lle Drydydd' hollbwysig lle y mae plant yn cael y cyfle i wneud ffrindiau tu allan i'r ysgol, meithrin hyder a dod yn gymdeithasol. Maent hefyd yn helpu plant i deimlo fel rhan o'r gymuned yn ogystal â chefnogi eu hawl i gael mynediad at chwarae mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Maent yn fannau niwtral, cyfarwydd, a chwaraeol - lle y gall plant fod yn eu hunain, ymlacio, a thyfu. Maent yn gweithredu fel y glud sy'n gludo cymuned at ei gilydd.

Faint o oedolion a all cofio eu profiadau chwarae eu hunain? Pan ofynnwyd, mae llawer o oedolion yn siarad am fod yn yr awyr agored, yn archwilio mewn natur, yn teimlo'n rhydd yn eu cymuned fel pe na fyddai amser nac rhwystrau chwarae. Mae llawer wedi dweud eu bod nhw wedi cael eu magu mewn cenhedlaeth lle'r oedd yn rhaid iddynt fynd adref pan fyddai'r goleuadau stryd yn troi ymlaen yn y nos. Roedd y realiti bryd hynny, yn wahanol iawn i'r hyn nawr.

Mewn amser a lle, lle mae plant yn byw mewn byd cymdeithasol ar-lein, mae'n bwysig iddynt gydnabod, er bod amseroedd yn wahanol, bod plant o hyd angen chwarae, archwilio a theimlo eu bod yn rhydd heb rhwystrau chwarae. Yn y gymdeithas hon sy'n symud yn gyflym a phersonoldeb sydd gennym heddiw, mae'n dod yn fwyfwy anodd cael mynediad at Drydedd Lle (ar gyfer oedolion a phlant) hyd yn oed fwy i'r teuluoedd sydd yn cael i'w heffeithio gan ddi.

Mae mwy o amser yn cael ei dreulio ar-lein ac mae llai o amser yn cael ei dreulio mewn lleoedd cymunedol corfforol, mae yna llai o ardaloedd chwarae anffurfiol oherwydd datblygiad trefol

a phryderon diogelwch, yn ogystal â bywydau gwaith prysur a phwysau ariannol sy'n cyfyngu ar gymdeithas gymunedol. Fel canlyniad o'r ffordd o fyw hon, mae llawer o blant yn methu â chael mynediad rheolaidd i leoedd diogel, cymdeithasol, anffurfiol ac amgylcheddau lle y gallant chwarae'n rhydd, wneud ffrindiau, a datblygu teimlad o berthyn.

Mae'r 'Trydydd Lle' angen meithriniaid drwy gysylltiadau gyda phobl sydd yn gallu cefnogi plant yn erbyn dylanwad cylchred amddifadedd mewn teulu ac y cymuned ehangach.

Pam mae cysylltiadau gyda phobl yn diflannu, mae plant mewn risg o ddod yn anghysylltiedig â'u cyfoedion, â'u cymunedau, a hyd yn oed o'u teimlad o'i hunaniaeth.

Wedi'i ysbrydoli gan "The Great Good Place" gan Ray Oldenburg, [Ray Oldenburg a Karen Christensen am lefydd trydydd](#).



Galwad am gyfraniadau ar gyfer cylchgrawn Gaeaf 2025

Pwnc: Celfyddydau a Diwylliant - Dathlu Hawl Plant i Greu, Profi a Rhannu

Thema ein cylchgrawn Gaeaf yw **Celfyddydau a Diwylliant**, a byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!

Mae **Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** yn cydnabod hawl pob plentyn i **orffwys, hamdden, chwarae a chymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol ac artistig**, sy'n cefnogi eu lles, eu datblygiad a'u hapusrwydd cyffredinol. Yn y rhifyn hwn, rydym am archwilio sut mae'r hawl hon yn cael ei chefnogi, ei hyrwyddo a'i dathlu - ac rydym yn eich gwahodd i gyfrannu.

Rydym yn croesawu erthyglau, astudiaethau achos neu fyfyrddodau ar bynciau fel:

- **Prosiectau neu fentrau sy'n cefnogi mynediad plant a phobl ifanc at y celfyddydau a diwylliant** – mewn ysgolion, lleoliadau ieuencid, mannau cymunedol neu wasanaethau iechyd a gofal
- **Effaith profiadau creadigol** – sut mae cymryd rhan mewn celfyddydau, cerddoriaeth, perfformio, adrodd straeon neu weithgareddau diwylliannol wedi cefnogi lles, llais, hyder a chynhwysiant
- **Engbrefftau o waith creadigol a gynhyrchwyd ar y cyd neu a arweinir gan blant** – lle mae plant a phobl ifanc wedi llunio'r cyfeiriad, y cynnwys neu'r canlyniadau
- **Rhwysterau a galluogwyr** – beth sy'n helpu neu'n llesteirio cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn bywyd diwylliannol? Beth sydd angen newid?
- **Lleisiau o ymarfer** – eich myfyrddodau ar pam mae celfyddydau a diwylliant yn bwysig yn eich gwaith, a sut rydych chi'n eu hymgorffori yn eich lleoliad

Mae hwn yn gyfle gwych i daflu goleuni ar y ffyrdd cyfoethog a chreadigol y mae plant a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant a sut y gallwch chi, fel gweithwyr proffesiynol, amddiffyn a hyrwyddo'r hawl hanfodol hon.

Canllawiau cyflwyno:

- Dylai erthyglau fod rhwng 500 a 750 o eiriau a chynnwys teitl, enw'r awdur a'r sefydliad
- Cofiwch gynnwys delwedd JPEG o ansawdd uchel os dymunwch neu logo eich sefydliad
- Darparwch eich cyflwyniad yn Saesneg a Chymraeg
- Dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau **Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2025**

I fynegi diddordeb neu gadw lle yn y rhifyn hwn, anfonwch e-bost at: membership@childreninwales.org.uk cyn gynted â phosibl.

Noder: mae'r cylchgrawn yn cael ei rannu'n gyhoeddus ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan roi **cyfle i'ch cyfraniad gyrraedd cynulleidfia ehangach y tu hwnt i'n haelodaeth**.

Dolenni sefydliadau

[Children in Wales](#)

[Youth Work Leadership Lab](#)

[Widening Participation, Cardiff University](#)

[Action for Children](#)

[Barnardo's Cymru](#)

[Llamau](#)

[Welsh Local Government Association \(WLGA\)](#)

[Blaenau Gwent County Borough Council](#)

[Pembrokeshire County Council](#)

[Family Fund](#)

[The National Lottery Community Fund](#)

[Credu](#)

[Welsh Refugee Council](#)

[Save the Children](#)

[Contact](#)


[Buttle UK](#)

[Play Wales](#)

[ScoutsCymru](#)

[Money Ready](#)

[Fairer Future](#)





PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

ARBED Y DYDDIAD

CYNHADLEDD FLYNYDDOL PLANT YNG NGHYMRU 2026

Lleisiau ar Waith

Rhoi Cyfranogiad wrth Galon Newid

Dydd Mercher, 25 Mawrth 2026
sbarclspark, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ

Prif Siaradwr: Yr Athro Laura Lundy

Arbenigwr blaenllaw ar hawliau a chyfranogiad plant

Diddordeb mewn cymryd rhan? Cysylltwch â'n Swyddog Digwyddiadau
emma.butler@childreninwales.org.uk

Bydd tocynnau Cyntaf i'r Felin ar werth ym mis Rhagfyr

Parc Ymchwil Gwyddorau
Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
(SPARC), Caerdydd, CF24 4HQ
☎ 029 2034 2434

✉ info@childreninwales.org.uk


✈ [@childreninwales.org.uk](https://www.childreninwales.org.uk)

📘 [@childreninwales](https://www.childreninwales.org.uk)

📷 [@youngwalesciw](https://www.childreninwales.org.uk)

🌐 [Children in Wales](https://www.childreninwales.org.uk)

[childreninwales.org.uk](https://www.childreninwales.org.uk)



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES